Archwilio Hyder mewn Cymwysterau a'r System Gymwysterau yng Nghymru

Rhagfyr 2017

Awdur a Manylion Cyswllt

Dyddiad: **Rhagfyr 2017**

Awduron: **Louise Starks a Philip Wilson**

Ansawdd Wedi'i Sicrhau gan: Philip Wilson

York Consulting LLP
Smithfield House
92 North Street
LEEDS
LS2 7PN

Ffôn: 0113 2223545
Ffacs: 0113 2223540

E-bost: philip.wilson@yorkconsulting.co.uk

CYNNWYS

Tudalen

1 CEFNDIR YR ASTUDIAETH A'R DULL YMCHWILIO 1

2 HYDER MEWN CYMWYSTERAU YNG NGHYMRU 5

3 HYDER YN Y SYSTEM GYMWYSTERAU 19

4 CASGLIADAU 28

CRYNODEB GWEITHREDOL

Cyflwyniad a Chyd-destun

1 Ym mis Ebrill 2015, comisiynwyd York Consulting gan Lywodraeth Cymru i gynnal astudiaeth dros bedair blynedd a hanner i archwilio hyder rhanddeiliaid mewn cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru. Yr adroddiad hwn yw'r ail adroddiad mewn astudiaeth tri cham. Cynhaliwyd y cam cyntaf yn y maes rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2015 a chyhoeddwyd adroddiad ym mis Mehefin 2017[1]. Caiff yr adroddiad terfynol ei gwblhau erbyn mis Ionawr 2020. Trosglwyddwyd y contract ar gyfer yr astudiaeth i Cymwysterau Cymru ym mis Medi 2015 pan sefydlwyd Cymwysterau Cymru.

2 Mae i Cymwysterau Cymru ddau brif nod a amlinellwyd yn y ddeddfwriaeth:

- sicrhau bod cymwysterau a system gymwysterau Cymru yn diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yn effeithiol.
- lhyrwyddo hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru.

3 Yn 2012, arweiniodd yr Adolygiad o Gymwysterau[2] at ddiwygio cymwysterau TGAU a Safon Uwch ar raddfa fawr dros gyfnod o dair blynedd rhwng 2015 a 2017. Mae manylion am y newidiadau i gymwysterau ar wefan Cymwysterau Cymru[3]. Bu rheoli, deall ac addysgu manylebau'r cymwysterau newydd a'u trefniadau asesu yn brif nodwedd ar safbwyntiau rhanddeiliaid, ochr yn ochr â'r cyfeiriad tuag at gwricwlwm newydd yn y dyfodol fel y'i hamlinellwyd yn Dyfodol Llwyddiannus[4].

Dull

4 Roedd yr astudiaeth yn cynnwys 67 o gyfweliadau ansoddol ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys staff ysgol a chyrff cynrychioliadol o'r sector ysgolion, rhanddeiliaid polisi a rhanddeiliaid cynrychioliadol, gan gynnwys y pedwar consortiwm rhanbarthol, darparwyr addysg bellach yng Nghymru, darparwyr addysg uwch (yng Nghymru a thu hwnt), darparwyr dysgu seiliedig ar waith, cyrff dyfarnu a chynrychiolwyr cyflogwyr. Roedd y broses samplu ar gyfer yr ymchwil ansoddol yn fwriadus ei natur ymhlith yr holl randdeiliaid perthnasol a nodwyd gan Cymwysterau Cymru. Drwy'r astudiaeth cafwyd tystiolaeth gan randdeiliaid a oedd â lefelau amrywiol o wybodaeth, dealltwriaeth a diddordeb ynglŷn â nifer o faterion a oedd yn ymwneud â chymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru.

[1] Cymwysterau Cymru (2016) Hyder mewn Cymwysterau a'r System Gymwysterau yng Nghymru. Mae'r crynodeb gweithredol ar gael yma.
[2] Llywodraeth Cymru (2012) Adolygiad o gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru: Adroddiad terfynol ac argymhellion. ISBN 978 0 7504 8267 7
[3] http://qualificationswales.org/qualifications/gcses/?lang=cy
[4] Donaldson, G. (2015) Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru ISBN 978 1 4734 3043 3, sydd ar gael yma:

PRIF GANFYDDIADAU

Hyder mewn Cymwysterau yng Nghymru

5 Roedd rhanddeiliaid yn parhau i roi gwerth ar gymwysterau TGAU a Safon Uwch yng Nghymru, a hynny am eu bod yn arwydd dibynadwy, ym marn rhanddeiliaid, o wybodaeth disgybl, ei sgiliau a'i allu i ddysgu sgiliau newydd.

6 Cytunodd llawer o randdeiliaid fod angen parhau i ddiwygio cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yng Nghymru er mwyn sicrhau bod safonau cymwysterau yn cael eu cynnal a chynnig portffolio cadarn o ddysgu ac asesu i bobl ifanc yng Nghymru.

7 Roedd diffyg ymwybyddiaeth o raddfa'r diwygiadau i gymwysterau y tu allan i'r sector ysgolion. Awgrymodd rhanddeiliaid fod y diffyg ymwybyddiaeth hwn yn gyffredin iawn ymhlith rhieni.

8 Roedd canfyddiad bod safonau wedi cael eu codi, mewn rhai cymwysterau TGAU, o ganlyniad i'r diwygiadau; weithiau mae'r cynnwys yn fwy heriol, ac mae'n rhaid i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth mewn ffyrdd gwahanol. Y canfyddiad yw bod hyn wedi deillio o ymrwymiad Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru i foderneiddio cymwysterau a sicrhau eu bod yn fwy cyson â'r math o gwestiynau a ofynnir gan PISA[5]. Croesawyd y ffaith bod mwy o ffocws ar gymhwyso dysgu, annibyniaeth dysgu a sgiliau llythrennedd a rhifedd yn y cwricwlwm.

9 Roedd rhai rhanddeiliaid yn pryderu bod ffocws polisïau wedi newid gormod er mwyn anelu at gyrraedd safle uwch yn nhrefn safleoedd PISA ac o ganlyniad, fod llai o sylw yn cael ei roi i arloesedd ym myd asesu a dysgu.

10 Roedd gan rai athrawon bryderon ynglŷn â chynnydd canfyddedig mewn cynnwys sgiliau mwy anodd/uwch mewn rhai cymwysterau. Mynegwyd rhai pryderon sylfaenol ynglŷn â chynnwys cymwysterau TGAU mewn Gwyddoniaeth a'r graddau roeddent yn gymwys i wyddoniaeth gyfoes; roedd nifer o'r farn bod y cynnwys yn rhy draddodiadol ac nad oedd yn paratoi dysgwyr yn ddigonol ar gyfer dysgu lefel uwch mewn gwyddoniaeth.

11 Roedd rhai rhanddeiliaid o blaid symud tuag at gymwysterau TGAU llinol (h.y. mae'r asesiad ar ddiwedd y cymhwyster) er mwyn sicrhau mwy o drylwyredd. Fodd bynnag, cafwyd siom o ran y dull asesu gyda gorddibyniaeth ar arholiadau papur (yn hytrach na phrofi gallu dysgwyr i weithio mewn timau neu gyflawni prosiectau). Gofynnodd rhai rhanddeiliaid am fwy o arloesedd o ran asesu.

12 Roedd cefnogaeth o blaid mwy o ffocws ar gynnwys Cymreig yn y cymwysterau, er enghraifft mewn llenyddiaeth a hanes.

[5] Y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (http://www.oecd.org/pisa/)

13 Mynegwyd siom gan randdeiliaid cyfrwng Cymraeg gyda'r oedi cyn darparu adnoddau i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg a phrinder adnoddau ymddangosiadol yn y system gymwysterau i wneud llawer am hyn.

14 Roedd canfyddiad bod cryn alw ar ysgolion i addysgu'r cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith llawn newydd ac roedd rhanddeiliaid yn pryderu am y goblygiadau i ysgolion o ran adnoddau.

15 Roedd pob rhanddeiliad yn gadarnhaol ynglŷn â chadw graddau A*-G TGAU yng Nghymru, ond roedd rhai pryderon ynglŷn â sut y gallai disgyblion sy'n ennill gradd A* ddangos cyfwerthedd â disgyblion yn Lloegr a enillodd Radd 9 yn y cymwysterau TGAU 9-1 diwygiedig yn Lloegr.

16 Mae cefnogaeth o blaid cadw'r dull modiwlaidd mewn Safon Uwch, yn enwedig gan ddarparwyr addysg uwch sy'n ystyried bod cymwysterau UG yn arwydd dibynadwy o botensial disgybl wrth roi cynnig.

17 Yn ôl y rhanddeiliaid, mae'r newidiadau yng nghynnwys rhai pynciau Safon Uwch, yn enwedig mewn mathemateg, yn gofyn am hyfforddiant ychwanegol i athrawon er mwyn sicrhau y gall athrawon addysgu'r manylebau newydd yn hyderus.

18 Nododd rhanddeiliaid fod Bagloriaeth Cymru (y Fagloriaeth) wedi cael ei gwella. Yn benodol, ystyriwyd bod graddio'r Dystysgrif Her Sgiliau a chyfwerthedd â phwyntiau tariff UCAS ar gyfer Safon Uwch yn ddatblygiadau cadarnhaol. Fodd bynnag, mae pryderon o hyd ynglŷn â lefel y fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r Dystysgrif Her Sgiliau a'r gofynion ar ddisgyblion i gwblhau'r cymhwyster, yn enwedig y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch ar lefel 3. Mae polisi Llywodraeth Cymru ynglŷn â mabwysiadu cyffredinol ychydig yn annelwig ac ar hyn o bryd mae pryderon bod mabwysiadu cyffredinol ar lefel 3 yn rhoi rhai disgyblion sy'n gwneud cais i astudio mewn sefydliadau addysg uwch o dan anfantais. Nid yw pob darparwr addysg uwch yn rhoi cynnig ar sail y Dystysgrif Her Sgiliau oherwydd pryderon ynglŷn â'r wybodaeth am bwnc penodol sydd ei hangen i astudio ar y lefel uwch.

Hyder yn y System Gymwysterau

19 Cydnabuwyd bod Cymwysterau Cymru yn sefydliad cadarn a oedd yn rhoi arweinyddiaeth a chysondeb ac yn cyfathrebu ar lefel dda o ran sut mae cymwysterau yng Nghymru yn cael eu rheoleiddio.

20 Canfyddiad y rhanddeiliaid oedd bod y sefydliad yn gadarn o ran dulliau ymgynghori ac mae'n gweithredu mewn modd agored a thryloyw wrth wneud penderfyniadau. Y canfyddiad oedd bod ymrwymiad clir gan Cymwysterau Cymru i weithio mewn partneriaeth â'r sector ehangach. Roedd lefelau uchel o gefnogaeth i Cymwysterau

Cymru ac i ymrwymiad y sefydliad i wella cymwysterau a'r system gymwysterau; yn enwedig ymhlith ysgolion, consortia rhanbarthol a chyrff dyfarnu.

21 Roedd llawer o randdeiliaid yn teimlo bod heriau i Cymwysterau Cymru (a sefydliadau eraill yn y system) o ran diwygio cymwysterau a newid y cwricwlwm yn y dyfodol, yng nghyd-destun newidiadau o hyd i fesurau perfformiad ysgolion. Roedd rhai o'r farn bod yn rhaid i Gymru fod yn adweithiol, i ryw raddau, i newidiadau yn Lloegr er mwyn sicrhau cyfwerthedd canfyddedig yng ngofynion cymwysterau.

22 Yn gysylltiedig â hyn, roedd pryderon nad oedd negeseuon gan Lywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a CBAC bob amser yn gyson a bod angen cytuno ar rolau ymhlith y sefydliadau hynny a'u cyfleu, yn enwedig i'r consortia rhanbarthol.

23 Mae graddau a chyflymder newidiadau wedi achosi heriau mawr i CBAC fel y corff dyfarnu ar gyfer cymwysterau TGAU a Safon Uwch, i ysgolion ac i gonsortia rhanbarthol. Nododd yr holl gyrff perthnasol eu bod yn ymateb cystal â phosibl gyda'r adnoddau a oedd ar gael iddynt. Fodd bynnag, rhoddwyd rhai enghreifftiau a oedd yn dangos bod CBAC wedi bod o dan bwysau: soniodd athrawon am oedi cyn cael rhai manylebau TGAU, bod ansawdd manylebau yn amrywio a bod adnoddau i athrawon yn hwyr, a effeithiodd ar allu ysgolion i baratoi i addysgu cymhwyster am y tro cyntaf ym mis Medi. Codwyd pryderon ynglŷn ag effaith bosibl hyn ar ddisgyblion.

24 Cafwyd problem benodol ynglŷn â chymwysterau a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd sawl rhanddeiliad yn y consortia rhanbarthol ac ymhlith ysgolion cyfrwng Cymraeg yn siomedig iawn; eu canfyddiad oedd bod manylebau a gwerslyfrau Cymraeg yn hwyr a bod diffyg cynnydd yn gyffredinol yn y maes hwn.

25 Roedd rhai rhanddeiliaid mewn ysgolion yn teimlo bod dewis wedi cael ei gyfyngu yn yr ystyr na all ysgolion ddewis y fanyleb na'r corff dyfarnu a oedd fwyaf addas i'w cohortau o ddisgyblion mwyach. Un pryder penodol oedd cael gwared ar BTEC Gwyddoniaeth yn y cwricwlwm ysgol oherwydd newidiadau mewn mesurau perfformiad ysgol. Pryder mwy cyffredinol oedd y penderfyniad i symud i ffwrdd oddi wrth gymwysterau galwedigaethol yn y cwricwlwm a'r negeseuon y mae hyn yn eu rhoi i ddisgyblion o ran parch cydradd â chymwysterau cyffredinol.

26 Cafwyd rhai pryderon ynglŷn â'r symud tuag at fwy o ddefnydd o arholiadau ar ddiwedd cwrs mewn cymwysterau galwedigaethol a chanfyddiad bod dysgwyr yn cael eu sianelu i un dull o asesu. Roedd cefnogaeth dda i'r penderfyniad i adolygu cymwysterau galwedigaethol fesul sector.

27 Roedd CBAC yn cael ei gydnabod yn gorff dyfarnu cadarn a oedd yn perfformio'n dda. Fodd bynnag, roedd rhai rhanddeiliaid yn pryderu bod symud i un corff dyfarnu

yn risg ac y gallai arwain at ddirywiad o ran ansawdd y gwasanaeth oherwydd diffyg cystadleuaeth.

28 Un pryder ehangach a fynegwyd gan sawl rhanddeiliad oedd effaith mesurau perfformiad ysgol Llywodraeth Cymru ar ysgolion yn fwy cyffredinol. Gofynnodd rhai rhanddeiliaid am fwy o ffocws ar gynnydd yn hytrach nag ennill gradd C ac uwch.

29 Roedd ychydig o randdeiliaid yn edrych ymlaen at y newidiadau arfaethedig i'r cwricwlwm ac roeddent wedi'u cyffroi gan y cyfleoedd a all ddod yn sgil y newidiadau ond roeddent yn pryderu hefyd ynghylch pa mor dda y bydd Cymru yn ymdopi â'r cyfnod pontio. Roedd sawl rhanddeiliad yn pryderu am gyflymder a mynychder newidiadau i gymwysterau o ganlyniad i'r cwricwlwm newydd.

1 CEFNDIR YR ASTUDIAETH A'R DULL YMCHWILIO

Cyflwyniad

1.1 Ym mis Ebrill 2015, comisiynwyd York Consulting gan Lywodraeth i gynnal astudiaeth dros bedair blynedd a hanner i archwilio a chrynhoi safbwyntiau rhanddeiliaid ar gymwysterau yng Nghymru a'r system gymwysterau, a'u hyder ynddynt.

1.2 Yr adroddiad hwn yw'r ail adroddiad mewn astudiaeth tri cham. Cynhaliwyd y cam cyntaf yn y maes rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2015 a chyhoeddwyd adroddiad ym mis Mai 2016. Caiff yr adroddiad terfynol ei gwblhau erbyn mis Ionawr 2020.

Cefndir

1.3 Pan ddaeth Deddf Cymwysterau Cymru 2015 i rym, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am reoleiddio'r system gymwysterau yng Nghymru i gorff annibynnol, sef Cymwysterau Cymru. Yn sgil trosglwyddo cyfrifoldebau, trosglwyddwyd y contract ar gyfer yr astudiaeth ymchwil hon i Cymwysterau Cymru ym mis Medi 2015.

1.4 Mae i Cymwysterau Cymru ddau brif nod a amlinellwyd yn y ddeddfwriaeth:

- Sicrhau bod cymwysterau a system gymwysterau Cymru yn diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yn effeithiol.
- hyrwyddo hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru.

Diwygio Cymwysterau Cyffredinol

1.5 Yn 2012, arweiniodd yr Adolygiad o Gymwysterau[6] at ddiwygio cymwysterau TGAU a Safon Uwch ar raddfa fawr dros gyfnod o dair blynedd rhwng 2015 a 2017. Mae manylion am y newidiadau i gymwysterau ar wefan Cymwysterau Cymru[7].

1.6 Cyflwynwyd diwygiadau i gymwysterau cyffredinol (TGAU a Safon Uwch) fesul cam dros gyfnod o dair blynedd o'u haddysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2015 i fis Medi 2017. CBAC yw unig ddarparwr y cymwysterau cyffredinol diwygiedig yng Nghymru, gan mai CBAC oedd yr unig gorff dyfarnu a ddewisodd ddatblygu cymwysterau i fodloni'r gofynion cynllunio a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru. Wrth i gymwysterau newydd gael eu cyflwyno, mae cymwysterau etifeddol yn cael eu tynnu'n ôl ac ni chaiff y rhan fwyaf o gymwysterau etifeddol eu haddysgu ar ôl mis Medi 2016 gyda'r cyfle olaf i ailsefyll

[6] Llywodraeth Cymru (2012) Adolygiad o gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru: Adroddiad terfynol ac argymhellion. ISBN 978 0 7504 8267 7

[7] http://www.qualificationswales.org/cymraeg/cymwysterau/tgau-a-safon-uwch/diwygio-cymwysterau-cyffredinol/ [cyrchwyd 16/3/18]

arholiadau yn ystod haf 2018[8]. Ar gyfer pynciau lle na ddatblygwyd cymhwyster diwygiedig i Gymru, gall dysgwyr ddewis o gymwysterau sydd wedi cael eu diwygio i Loegr, cyhyd â'u bod wedi'u dynodi gan Cymwysterau Cymru.

Adolygiadau Sector o Gymwysterau Galwedigaethol

1.7 Mae Cymwysterau Cymru hefyd wedi bod yn cynnal adolygiadau o gymwysterau galwedigaethau ar sail sector. Mae'r broses o adolygu cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cael ei chwblhau a chyhoeddwyd adroddiad yr adolygiad sector yn manylu ar yr hyn y mae angen ei newid ym mis Gorffennaf 2016[9]. Dyfarnwyd contract i CBAC, mewn partneriaeth â Sefydliad y Ddinas a'r Urddau, i gyflwyno cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r adroddiad ar yr adolygiad sector o'r diwydiant adeiladu a'r amgylchedd adeiledig hefyd wedi cael ei gyhoeddi ynghyd ag ymgynghoriad ar yr ymateb i'r canfyddiadau, ac mae adolygiad o'r cymwysterau yn y sector Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) yn mynd rhagddo.

Diwygio'r cwricwlwm

1.8 Comisiynwyd yr Athro Graham Donaldson gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau i gynnal adolygiad sylfaenol o'r cwricwlwm a threfniadau asesu yng Nghymru o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4. Cynigiodd adroddiad 2015 Donaldson, Dyfodol Llwyddiannus[10], newidiadau eang a radical arfaethedig i'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion 3-16 oed.

1.9 Derbyniwyd pob un o'r argymhellion gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau a olygai fod Cymru yn ymrwymo i newidiadau radical ym maes addysgu a dysgu.

1.10 Felly, mae'r newidiadau i'r systemau gymwysterau yng Nghymru sy'n mynd rhagddynt, a newidiadau posibl yn y dyfodol, yn rhai sylweddol. Bu rheoli, deall ac addysgu manylebau'r cymwysterau newydd yn nodwedd allweddol ar safbwyntiau rhanddeiliaid, ochr yn ochr â'r cyfeiriad yn y dyfodol yr ymrwymwyd iddo yn Dyfodol Llwyddiannus.

Dull

[8] Mae rhestr lawn o'r amserlen addysgu ac arholi derfynol ar gael ar wefan Cymwysterau Cymru, yma. http://qualificationswales.org/media/2080/legacy-gcses-161010.pdf (cyrchwyd 28/12/17)

[9] Cymwysterau Cymru (2016) Adolygiad Sector o Gymwysterau a'r System Gymwysterau yng Nghymru, gan gynnwys gofal plant a gwaith chwarae. http://www.qualificationswales.org/media/1903/hsc-report-2016-w.pdf (adolygwyd ddiwethaf 28/12/17)

[10] Donaldson, G. (2015) Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru ISBN 978 1 4734 3043 3, sydd ar gael yma: file:///C:/Users/louis/AppData/Regional/Packages/Microsoft.MicrosoftEdge_8wekyb3d8bbwe/TempState/Downloads/Donaldson%20Report%20-%20Successful%20Futures%20-%20Independent%20Review%20of%20Curriculum%20and%20Assessment%20Arrangements%20in%20Wales.pdf

1.11 Cwblhawyd 67 o gyfweliadau ansoddol â rhanddeiliaid o 61 o sefydliadau wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. Cytunwyd ar restr eang o randdeiliaid â Cymwysterau Cymru.

1.12 Mae Tabl 1.1 yn manylu ar y grwpiau rhanddeiliaid a sicrhawyd.

Tabl 1: Grwpiau Rhanddeiliaid a Gyfwelwyd

20 o gyrff staff ysgol a chyrff cynrychioliadol ysgolion
3 Choleg Addysg Bellach a Colegau Cymru
5 darparwr Dysgu Seiliedig ar Waith a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
12 o Ddarparwyr Addysg Uwch a chynrychiolwyr o'r sector (5 Darparwr Addysg Uwch yng Nghymru)
5 Corff Dyfarnu a Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu a'r Cyd-bwyllgor Cymwysterau
10 o sefydliadau ehangach, gan gynnwys Estyn a'r 4 Consortiwm Rhanbarthol
2 Gyngor Sgiliau Sector a CBI Cymru

1.13 Defnyddiwyd samplu bwriadus[11] i nodi a dewis cyfweleion.

1.14 Cafodd y canllaw i gyfweliadau ei gynllunio i roi cyfle i randdeiliaid drafod unrhyw fater a oedd yn berthnasol i'w rôl mewn perthynas â chymwysterau, y system gymwysterau a Cymwysterau Cymru.

1. Beth yw safbwyntiau rhanddeiliaid ar y cymwysterau yng Nghymru?
    a. Pa ffactorau sy'n galonogol, yn eu barn hwy?
    b. Pa ffactorau sy'n achosi pryder iddynt?
2. Beth yw'r cryfderau allweddol yn y system gymwysterau yng Nghymru?
3. A yw rhanddeiliaid yn teimlo y gellid gwella'r system gymwysterau mewn unrhyw ffordd?
4. Beth yw barn rhanddeiliaid am Cymwysterau Cymru?

1.15 Roedd y gwaith o grynhoi'r amrywiaeth eang o safbwyntiau yn heriol. Roedd safbwyntiau rhanddeiliaid yn amrywio o ran yr holl bwyntiau a godwyd yn ystod y trafodaethau, ac roedd rhai rhanddeiliaid yn meddu ar wybodaeth ddyfnach am faterion penodol. Bu hyn yn heriol wrth geisio cadarnhau safbwyntiau. Er enghraifft, cafodd adborth gan un neu dau o athrawon ar gymwysterau penodol ei gynnwys fel ffordd o ddangos hyder, neu ddiffyg hyder mewn cymwysterau.

1.16 Mae'n bwysig nodi hefyd i randdeiliaid fynegi safbwyntiau cryf ynglŷn â system addysg Cymru yn fwy cyffredinol na chymwysterau ac weithiau soniwyd am

[11] Sampl nad yw'n seiliedig ar debygolrwydd ac a ddewisir ar sail nodweddion poblogaeth ac amcanion yr astudiaeth

faterion a oedd yn ymwneud â rheoleiddio polisïau ac addysgu. Felly, nid yw pob pwynt yn berthnasol i rolau na chyfrifoldebau Cymwysterau Cymru ond maent wedi'u cynnwys yn yr adroddiad er mwyn adlewyrchu'r safbwyntiau a godwyd gan randdeiliaid.

1.17 Y canfyddiadau a nodwyd yma yw'r safbwyntiau a'r farn a fynegwyd gan randdeiliaid.

2 HYDER MEWN CYMWYSTERAU YNG NGHYMRU

Cyflwyniad

2.1 Mae'r adran hon yn nodi'n fanwl safbwyntiau rhanddeiliaid ar gymwysterau yng Nghymru. Roedd pwyntiau allweddol a godwyd yn ymwneud â'r canlynol:

- Cymwysterau Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd (TGAU)
- Cymwysterau Safon Uwch (UG a Safon Uwch)
- Bagloriaeth Cymru / Tystysgrif Her Sgiliau
- Cymwysterau galwedigaethol.

Cymwysterau TGAU

Cymwysterau TGAU yn gyffredinol

2.2 Rhoddir gwerth mawr o hyd ar gymwysterau TGAU fel cymhwyster gan y rhanddeiliaid a gyfwelwyd. Nododd rhanddeiliaid eu bod yn arwydd dibynadwy o wybodaeth a sgiliau disgybl a'i allu i ddysgu mewn nifer o feysydd pwnc.

"Mae cymwysterau TGAU yn rhoi meincnod da o wybodaeth myfyriwr ac mae pawb yn eu deall. Maent yn rhan allweddol o'n hasesiad o sgiliau pobl ifanc."

2.3 Roedd canfyddiad bod safonau TGAU wedi cael eu codi o ganlyniad i'r diwygiadau.

"Gofynnir i bobl ifanc gymhwyso eu meddwl i lefel uwch."

2.4 Roedd gan randdeiliaid y tu allan i'r sector ysgolion hyder yn y newidiadau a wnaed, gan gredu bod Cymwysterau Cymru yn ymrwymedig i wella pethau ac y bydd hyn yn helpu i godi statws cymwysterau yng Nghymru.

"Mae'n beth da ein bod yn mynd i'r afael â'r problemau [canfyddiad o safonau is nag yn Lloegr], gall hynny ond bod o fudd i'n pobl ifanc..."

2.5 Er bod gostyngiad mewn canlyniadau ar Gyfnod Allweddol 4 mewn pynciau craidd[12] yn 2016/17, y farn gyffredinol oedd y gellid priodoli'r cyrhaeddiad is fwy na thebyg i newidiadau mewn manylebau a dulliau asesu ac, wrth i athrawon ddod yn fwy cyfarwydd â'r cymwysterau newydd, y bydd canlyniadau'n gwella. Roedd hyder y byddai diwygiadau i'r cymwysterau, yn y dyfodol, yn arwain at ddisgyblion sydd wedi'u paratoi'n well i wynebu heriau cymdeithas fodern.

"Mae'r cymwysterau newydd hyn yn gofyn i fyfyrwyr fod yn fwy gwydn ac annibynnol."

[12] y pynciau craidd yw Cymraeg/Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth

2.6 Roedd rhanddeiliaid yn teimlo bod y cynnydd mewn cyd-destun Cymreig mewn rhai cymwysterau, megis llenyddiaeth a hanes, yn newid cadarnhaol i'r manylebau diwygiedig.

"Mae'n gymaint o gryfder bod ein pobl ifanc yn dysgu am y cyd-destun Cymreig...bod eu dealltwriaeth yn seiliedig ar ein hanes a'n diwylliant."

2.7 Teimlwyd bod penderfyniad Llywodraeth Cymru i gadw'r system graddio A*-G yn un cadarnhaol gan ganolfannau (ysgolion a cholegau) a chan randdeiliaid yn fwy cyffredinol, ond mynegwyd rhywfaint o bryder na all myfyrwyr o Gymru ddangos, drwy eu graddau, gyflawniad sy'n gyfwerth â Gradd 9 yn Lloegr.

"Nid oes gennym gyfwerthedd mwyach [â Lloegr] ym mhen uchaf cyflawniad (disgyblion) (mewn arholiadau TGAU)."

Cefnogaeth i TGAU

2.8 Yn gyffredinol, ar draws yr holl gymwysterau TGAU, bu cefnogaeth i'r newidiadau a wnaed i'r cynnwys. Datgelodd cyfweliadau â phenaethiaid a phenaethiaid adran gryn hyder yn y manylebau newydd. Cytunwyd bod y cymwysterau TGAU newydd wedi rhoi mwy o ffocws ar weithrediad, gan annog disgyblion i ddatblygu sgiliau 'bob dydd' ymarferol newydd, a chreu dysgwyr mwy annibynnol ac effeithiol.

"Mae'r cymwysterau newydd yn rhoi cyfres gynhwysfawr o sgiliau a gwybodaeth sy'n symud dysgwyr tuag at y sgiliau sydd eu hangen arnynt yn yr 21ain ganrif".

Enghreifftiau o sylwadau gan athrawon ar bynciau TGAU penodol

Bu cryn gefnogaeth i TGAU Mathemateg a Mathemateg Rhifedd ymhlith amrywiaeth eang o randdeiliaid. Nododd llawer fod y newidiadau wedi gwella sgiliau mathemateg gweithredol/cymhwysol dysgwyr. Mae'r cynnwys yn adeiladu'n ddi-dor o Gyfnod Allweddol 3 i Gyfnod Allweddol 4. Croesawyd y TGAU Mathemateg Rhifedd yn arbennig.

"Mae'n rhaid i chi addysgu disgyblion i feddwl yn nhermau datrys problemau ac mae hyn yn sgil mawr iddynt ei ddysgu."

"Mae'r papurau gradd uwch yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddangos eu gallu i gyrraedd A ac mae'r papur canolradd yn bapur cadarnhaol i fyfyrwyr B/C."*

2.9 Hefyd, canfyddir bod y newidiadau yn TGAU Cymraeg Ail Iaith wedi rhoi mwy o ffocws ar gyfathrebu a chredir eu bod yn helpu i sicrhau bod disgyblion yn datblygu sgiliau iaith gweithredol da. Canfyddir bod TGAU Saesneg Iaith yn 'ymdebygu i bapur PISA[13]' ac ystyrir ei bod yn fwy perthnasol i'r hyn y mae angen i ddysgwyr fod yn gallu ei wneud.

[13] Y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (http://www.oecd.org/pisa/)

2.10 Cydnabuwyd bod yr asesiadau newydd yn cefnogi'r broses o ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd ym mhob rhan o'r cwricwlwm.

2.11 Yn ôl ysgolion, mae ymgorffori gofynion llythrennedd ym mhob TGAU wedi helpu i wella sgiliau disgyblion ac wedi helpu i bwysleisio pwysigrwydd iaith effeithiol a manwl gywir. Bu cefnogaeth eang i'r pwyslais cynyddol ar sillafu, gramadeg ac atalnodi ym mhob TGAU.

"Mae'n rhaid bod hyn yn beth da, er mwyn sicrhau ein bod yn ymgorffori'r sgiliau hynny ymhob rhan o'r cwricwlwm."

"Mae athrawon wedi addasu sut maent yn addysgu ac yn marcio gwaith er mwyn herio disgyblion ynglŷn â'u defnydd o iaith."

2.12 Cydnabuwyd bod y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn fframwaith allweddol sydd wedi helpu ysgolion i ymgorffori sgiliau llythrennedd a rhifedd.

Pryderon ynglŷn â chymwysterau TGAU

2.13 Mynegwyd pryderon ynglŷn â rhai cymwysterau TGAU gan ysgolion hefyd, yn bennaf o ran y swm mawr o gynnwys (a ddisgrifir isod) a'r asesiad newid, ac eithrio cymwysterau TGAU Gwyddoniaeth. O ran cymwysterau TGAU Gwyddoniaeth, bu pryderon ynglŷn ag addasrwydd y fanyleb.

Gormod o gynnwys: mae rhai athrawon a chonsortia rhanbarthol wedi nodi bod gan rai cymwysterau TGAU ormod o gynnwys, er enghraifft Astudiaethau Crefyddol a Seicoleg.

"Mae'r fanyleb (Astudiaethau Crefyddol) yn enfawr ac yn her wirioneddol."

TGAU Mathemateg - Rhifedd: Mae'r papur yn rhoi llawer o bwyslais ar sgiliau llythrennedd disgyblion a bydd yn achosi heriau ychwanegol i rai dysgwyr. Mae'r elfen ynglŷn â chymhwyso rhifedd yn dda, ond mae rhai ysgolion yn cael anhawster i'w haddysgu.

TGAU Mathemateg: Mae haenau'r papurau mathemateg yn cynnig heriau i ysgolion er mwyn sicrhau bod eu disgyblion yn cael eu cofrestru ar gyfer y papur cywir. Bu sawl rhanddeiliad yn pryderu nad yw'r papur sylfaen yn galluogi disgybl i ennill gradd C [ar lefel 2].

"Mae'n anodd annog plentyn sy'n gwybod na all lwyddo yn yr arholiad."

Ymgorffori rhifedd: Bu llai o hyder o ran pa mor dda mae rhifedd wedi cael ei ymgorffori ym mhob rhan o'r cwricwlwm gyda rhai ysgolion yn nodi bod hyn yn fwy anodd i'w gyflawni mewn meysydd pwnc penodol.

"Rwy'n meddwl bod angen rhoi sylw i hyn (ymgorffori rhifedd ym mhob rhan o'r cwricwlwm), mae prinder gwybodaeth ymhlith athrawon o ran sut i gyflwyno rhifedd mewn rhai pynciau, er enghraifft Hanes a Chymraeg neu Saesneg."

Cymhariaeth â TGAU Mathemateg ar ei ffurf ddiwygiedig yn Lloegr: Mynegwyd barn bod TGAU Mathemateg yn Lloegr o safon uwch a'i bod yn gofyn mwy gan ddisgyblion na TGAU Mathemateg yng Nghymru. Er nad yw hyn yn ffeithiol gywir mae'n dangos y canfyddiad ymhlith rhanddeiliaid.

"[Yn Lloegr] mae pedwar pwnc Safon Uwch wedi symud i lawr i TGAU a dyna beth sy'n cynnig gradd rhagoriaeth Gradd 9. Nid yw hyn wedi digwydd yng Nghymru ac mae'n achos pryder i mi, mae'n

annheg ar ein myfyrwyr A a fydd yn mynd yn eu blaen i astudio ar lefel Safon Uwch ac addysg uwch yn y pen draw."*

TGAU Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl): Nododd sawl rhanddeiliad yn y sector ysgolion fod y cynnwys yn rhy draddodiadol, nad oedd yn paratoi dysgwyr i feddwl yn greadigol nac yn annog disgyblion i ddatblygu sgiliau ar gyfer yr 21ain ganrif.

"Mae Donaldson yn ymwneud â'r darlun mawr ym maes Gwyddoniaeth. Nid yw'r cymhwyster newydd sydd wedi'i gynllunio gan CBAC yn ymwneud â'r darlun mawr, mae'n rhy draddodiadol."
(Ysgolion)

Mynegwyd pryderon hefyd ynglŷn â TGAU Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl) o ran dilyniant o Gyfnod Allweddol 3 i Gyfnod Allweddol 4 a diffyg parhad cynnwys.

TGAU Saesneg: Roedd yr asesiad enghreifftiol ar gyfer TGAU Saesneg Iaith 'yn frith o wallau'. Mynegwyd barn bod diffyg eglurder yn yr hyfforddiant ynglŷn â'r ffordd y dylai athrawon baratoi myfyrwyr ar gyfer ysgrifennu naratif a datblygu sgiliau synthesis.

Ffiniau graddau: Mynegodd sawl rhanddeiliad bryderon ynglŷn â ffiniau graddau isel ar gyfer TGAU Gwyddoniaeth a Mathemateg yn enwedig. Rhoddwyd un enghraifft mewn mathemateg lle canfuwyd bod marciau llwyddo ar radd C yn isel iawn. Dywedodd rhanddeiliaid eu bod yn tybio bod ffiniau graddau wedi'u hailbennu er mwyn ystyried yr anhawster cynyddol. Roedd rhai rhanddeiliaid yn meddwl tybed a fu ymyrraeth wleidyddol o ran pennu ffiniau graddau fel nad oedd y newidiadau mewn cymwysterau yn rhy ddamniol i Gymru.

Asesu cymwysterau TGAU

2.14 Bu llawer o randdeiliaid o blaid lleihau asesiadau dan reolaeth (nas arholwyd) (a gynhelir mewn canolfannau) a symud tuag at asesu drwy arholiadau allanol. Cydnabu rhai rhanddeiliaid y byddai'r newid hwn yn arwain at 'fwy o chwarae teg'.

"Mae'n lleddfu pryderon y gall ysgolion gael gormod o effaith ar berfformiad myfyriwr (drwy'r defnydd o asesiadau o dan reolaeth)."

2.15 Fodd bynnag, roedd rhai rhanddeiliaid am gadw'r asesiad drwy waith cwrs/asesiad o dan reolaeth mewn rhai pynciau, fel yr asesiad ymarferol a gadwyd mewn Gwyddoniaeth ac roeddent am weld rhywfaint o asesu gwaith grŵp ar lefel TGAU.

"Mae angen i ni fod yn llawer mwy creadigol ynglŷn â sut rydym yn asesu ein disgyblion. Pam na allwn gynnwys asesiadau o ba mor dda y mae myfyrwyr yn gweithio fel grŵp? Mae'r sgiliau hyn mor bwysig i gyflogwyr."

2.16 Bwriodd rhai rhanddeiliaid, gan gynnwys consortia rhanbarthol ac athrawon, amheuaeth ar y ddibyniaeth o hyd ar asesiadau arholiadau traddodiadol sydd ar bapur.

"Cyfaddawd yw arholiadau...mae gennym ddiwylliant o arholiadau ysgrifenedig nad yw, at ei gilydd, yn gadarnhaol i'n pobl ifanc nac am eu profiad o ddysgu."

2.17 Nododd sawl rhanddeiliad eu bod yn siomedig nad oedd y system ar gyfer asesiadau terfynol wedi symud ymlaen a bod diffyg arloesedd o ran datblygu asesiadau terfynol.

"Mae'r diwygiadau yn hollol ddiflas, arholiadau sy'n ysgogi ymddygiad mewn ysgolion ac ymhlith disgyblion ac ar hyn o bryd mae hyn yn gwobrwyo llwybr academaidd.

2.18 Awgrymodd rhai rhanddeiliaid bod yr hyn sy'n cael ei asesu mewn cymwysterau TGAU diwygiedig yng Nghymru wedi mynd yn debycach i'r hyn a asesir yn Lloegr.

2.19 Roedd sawl rhanddeiliad yn pryderu ynglŷn â nifer yr arholiadau y mae'n rhaid i ddisgyblion eu sefyll mewn cyfnod byr a'r effaith ar les pobl ifanc.

"Gofynnir i lawer o ddisgyblion sefyll dros 20 o bapurau arholiad mewn ychydig wythnosau. Ai dyna'r dull gorau o asesu eu talentau mewn gwirionedd?"

Ymwybyddiaeth Gyffredinol o'r Newidiadau i gymwysterau TGAU

2.20 Ymhlith darparwyr dysgu seiliedig ar waith, darparwyr addysg uwch a chynrychiolwyr cyflogwyr, cyfyngedig yw eu dealltwriaeth o'r newidiadau i gymwysterau cyffredinol ac ymhlith sefydliadau cynrychioliadol eraill nid oedd fawr ddim ymwybyddiaeth o'r diwygiadau. O'u holi, ychydig o bobl oedd yn ymwybodol o'r newidiadau i gymwysterau TGAU Mathemateg a dywedodd ychydig eu bod yn gwybod llai amdanynt nag yr hoffent.

2.21 Er gwaethaf y wybodaeth eithaf manwl sydd ar gael ar wefan Cymwysterau Cymru, nid oedd llawer o randdeiliaid yn mynd i'r wefan i gael gwybodaeth. Nododd sawl rhanddeiliad eu bod yn bwriadu mynd i edrych ar wefan Cymwysterau Cymru yn amlach er mwyn cael gwybodaeth yn y dyfodol.

2.22 Cytunodd y rhan fwyaf o randdeiliaid fod angen i ysgolion godi ymwybyddiaeth o'r newidiadau i gymwysterau, yn enwedig cymwysterau TGAU Mathemateg, ymhlith rhieni a'r gymuned ehangach.

Cymwysterau TGAU yn Gymraeg

2.23 Yn ôl rhanddeiliaid, mae Cymwysterau Cymru yn deall materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn dda ac wedi gwneud ymdrechion i weithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg a chyrff dyfarnu i fynd i'r afael â chymwysterau TGAU yn Gymraeg.

2.24 Fodd bynnag, bu pryder a siom ymhlith rhanddeiliaid ynglŷn ag argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg dynodedig (a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ond nad ydynt ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg o reidrwydd). Bu pryderon hefyd ynglŷn â'r ystod o gymwysterau cymeradwy (sydd wedi cael eu diwygio i Gymru ac mae'n ofynnol gan Cymwysterau Cymru eu bod yn cael eu cynnig yn ddwyieithog) ac adnoddau i helpu i'w cyflwyno. Bu sôn am ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gorfod cyfieithu'r adnoddau eu hunain cyn y gallent eu haddysgu, sy'n ymrwymiad mawr i ysgol o ran adnoddau. Er bod Llywodraeth Cymru yn cynnig grant y gall cyrff dyfarnu ei hawlio i ddatblygu adnoddau ar gyfer pynciau â blaenoriaeth, nid yw pob corff dyfarnu yn ei ddefnyddio i gynnig asesiadau cyfrwng Cymraeg ym mhob un o'i gymwysterau. Yn aml, nid yw'r gwerslyfrau ar gael yn Gymraeg, neu dim ond peth amser ar ôl i'r fersiynau Saesneg gael eu cyhoeddi y byddant ar gael yn Gymraeg. Ystyriwyd bod hyn yn agwedd ar y farchnad agored lle mae gwerslyfrau yn cael eu darparu gan gyhoeddwyr masnachol, sydd y tu hwnt i gyrraedd pwerau rheoleiddio Cymwysterau Cymru. Efallai y bydd angen i'r rheoleiddiwr roi mwy o sylw i hyn er mwyn sicrhau nad yw'r disgyblion sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg o dan anfantais.

2.25 Yn ôl rhanddeiliaid, mae nifer o gymwysterau pwnc sydd â nifer fach o gofrestriadau nad ydynt ar gael yn Gymraeg, megis Seicoleg ac mae hyn wedi mynd yn broblem gynyddol.

"Mae'n ymddangos nad ydym yn gwneud llawer o gynnydd ar y mater hwn yn gyflym iawn."

2.26 Nododd cyrff dyfarnu hefyd ei bod yn her recriwtio arholwyr sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer pynciau sydd â nifer fach o gofrestriadau.

TGAU Cymraeg Ail Iaith

2.27 Mae'r gofyniad statudol ar bob dysgwr i astudio Cymraeg iaith gyntaf neu Cymraeg ail iaith tan ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 yn dal i ennyn amrywiol ymatebion ymhlith rhanddeiliaid.

"Rydym yn llwyr gefnogi safbwynt Llywodraeth Cymru ac yn credu bod hyn yn gam enfawr i sicrhau bod ein hiaith yn iaith fyw a ddefnyddir mewn bywyd bob dydd."

"Nid yw llawer o ddisgyblion am ei dysgu ac nid yw'n iaith hawdd ei dysgu. Pam y dylid eu gorfodi i'w hastudio?"

2.28 Cymysg fu'r ymateb ymhlith rhanddeiliaid i'r diwygiadau i TGAU Cymraeg Ail Iaith a'r penderfyniad i ddiddymu'r cwrs byr. Nododd rhai ysgolion eu bod yn bwriadu addysgu'r TGAU Cymraeg Ail Iaith newydd ond na fyddai pob disgybl yn ei sefyll. Cwestiynodd rhai y rhesymeg dros orfod addysgu rhaglen astudio lle nad oedd myfyrwyr yn bwriadu sefyll arholiad.

2.29 Fodd bynnag, fel rhan o'r ddadl hon, cydnabyddir bod y newidiadau i'r TGAU Cymraeg Ail Iaith i'w croesawu a nodwyd y dylai'r cymhwyster arwain at sgiliau

cyfathrebu gwell. Codwyd pryderon ymarferol ynglŷn â gallu ysgolion i addysgu'r cymhwyster TGAU hwn pan nad oes digon o athrawon sy'n siarad Cymraeg yn y rhwydwaith o ysgolion uwchradd a gynhelir. Yn ôl y consortia rhanbarthol, mae ysgolion cyfrwng Saesneg, o ganlyniad, yn dibynnu'n fawr ar yr ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i'w helpu i addysgu'r cymhwyster ail iaith cwrs llawn newydd.

Cymwysterau Safon Uwch (UG a Safon Uwch)

2.30 Roedd gan randdeiliaid hyder mewn cymwysterau Safon Uwch, gan ddweud bod asesiad trylwyr yn sail iddynt a'u bod yn gyfwerth â safonau yn Lloegr.

2.31 Roedd darparwyr addysg uwch yn gadarnhaol ynglŷn â'r penderfyniad i gadw dull modiwlar UG a Safon Uwch yng Nghymru o gymharu â'r newid i system Safon Uwch linol yn Lloegr. Ystyrir bod cadw'r cymhwyster UG yn gwbl gydnaws â dysgu ar y lefel uwch. Mae'r system fodiwlar yn adlewyrchu dull addysgu darparwyr addysg uwch i raddau helaeth: Mae bron bob cwrs prifysgol yn gwrs 'blwyddyn' modiwlar, lle mae'n rhaid i fyfyrwyr 'lwyddo' bob blwyddyn cyn cael symud ymlaen i'r flwyddyn nesaf.

2.32 Nododd athrawon hefyd fod myfyrwyr yn cadw eu cymhelliant drwy gydol y ddwy flynedd o astudio oherwydd yr asesiad ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf. Hefyd, mae myfyrwyr yn gallu canolbwyntio ar ddysgu newydd yn well yn ystod yr ail flwyddyn, am eu bod eisoes wedi cael eu harholi ynglŷn â chynnwys y flwyddyn gyntaf o ddysgu.

2.33 Ystyrir bod canlyniadau UG hefyd yn ffordd ddefnyddio a dibynadwy o ragweld canlyniad tebygol myfyrwyr ar Safon Uwch. Yn absenoldeb graddau UG, nododd darparwyr addysg uwch fod yn rhaid iddynt gyfeirio'n ôl at ganlyniadau TGAU i gael dangosydd wedi'i farcio'n allanol o allu ymgeisydd.

2.34 Mae pryderon y gall myfyrwyr yn Lloegr astudio tri phwnc Safon Uwch yn unig cyn mynd yn eu blaen i astudio gyda'u dewis ddarparwr addysg uwch, ond bydd llawer o fyfyrwyr yng Nghymru yn sefyll tri arholiad Safon Uwch ochr yn ochr â'r Dystysgrif Her Sgiliau.

"Rwy'n pryderu dros rai o'n myfyrwyr, bod hyn yn eu rhoi o dan anfantais."

2.35 Yn ôl rhanddeiliaid, mae rhai o'r cymwysterau Safon Uwch diwygiedig yn arwain at ddisgwyliad lefel uchel ar fyfyrwyr ac o ganlyniad, maent yn gofyn am lefel uwch o wybodaeth addysgu na chynt. Cyfeiriwyd at hyn yn benodol mewn perthynas â mathemateg, ond soniodd athrawon yn fwy cyffredinol am yr angen am baratoi mwy i addysgu'r manylebau newydd. Nododd Consortia Rhanbarthol hefyd fod gofyniad ar ysgolion i baratoi ar gyfer y manylebau Safon Uwch newydd ac nad oedd hyn wedi digwydd i'r graddau roedd eu hangen.

2.36 Gwnaeth sesiynau arsylwi ar addysgu gan arbenigwyr mewn Consortiwm Rhanbarthol ddatgelu i bob golwg ddiffyg hyder athrawon i addysgu'r fanyleb Safon Uwch Mathemateg newydd.

2.37 Rhoddodd ychydig o benaethiaid, penaethiaid adran a chonsortia rhanbarthol adborth ar faterion penodol a oedd yn ymwneud â chymwysterau Safon Uwch.

Mynd ymlaen i Wyddoniaeth Safon Uwch: Mynegodd ychydig o randdeiliaid bryderon ynglŷn â chyrhaeddiad gwael disgyblion yn arholiadau TGAU mewn Gwyddoniaeth a allai effeithio'n negyddol ar eu perfformiad ar lefel Safon Uwch. Mae ysgolion wedi nodi newid mawr o ran anhawster o gymwysterau TGAU mewn Gwyddoniaeth i Wyddoniaeth Safon Uwch ac ymddengys eu bod yn derbyn y bydd gostyngiad cenedlaethol yng nghyrhaeddiad myfyrwyr mewn Gwyddoniaeth Safon Uwch.

Mathemateg Safon Uwch: Bu newid mawr o ran safon mewn Mathemateg Safon Uwch, a dywedir bod Mathemateg Safon Uwch yn fwy heriol. Mae hyn wedi cael effaith ar allu athrawon i addysgu. Y canfyddiad yw bod y fanyleb Safon Uwch yn amwys, a bod yn rhaid i athrawon gysylltu â CBAC i gael eglurhad o'r fanyleb. Dim ond un papur enghreifftiol sydd ar gael, felly mae athrawon yn ansicr ynglŷn â'r arholiad yn ystod haf 2018.

Bu gan rai athrawon bryderon bod gofyn i ddisgyblion gwmpasu pob maes mathemateg, gan gynnwys ystadegau, a bod hyn yn her wirioneddol i rai disgyblion y byddai'n well ganddynt arbenigo. Ceir rhai pryderon hefyd nad oes llawer o athrawon yn meddu ar ddigon o sgiliau i addysgu'r ddau faes ac y gall ansawdd addysgu ddioddef o ganlyniad i hynny.

Almaeneg UG: Teimlodd un athro fod manyleb Almaeneg UG wedi cael ei hachredu ar y funud olaf ac nad oedd wedi'i gweithredu'n dda. Y rheswm dros hyn oedd bod y broses gymeradwyo wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl, a olygai mai dim ond ychydig o amser a gafwyd rhwng ei chymeradwyo a'r dyddiad i'w haddysgu am y tro cyntaf. Roedd yr athro o'r farn y gallai'r fanyleb fod wedi rhoi mwy o fanylion a chanllawiau ar y meysydd pwnc. Roedd yn ei chymharu â manyleb EDUQAS a oedd yn fwy atyniadol, ym marn yr athro, am ei bod yn cynnwys mwy o ddewis o ffilmiau a llenyddiaeth.

Bagloriaeth Cymru / Tystysgrif Her Sgiliau

2.38 Ym mis Medi 2015, cyflwynwyd Bagloriaeth Cymru ar ei ffurf newydd er mwyn helpu i baratoi dysgwyr rhwng 14 a 19 oed at fywyd a gwaith a symud ymlaen i addysg bellach/uwch. Fframwaith o gymwysterau yw'r Fagloriaeth, sy'n cynnwys:

- Y Dystysgrif Her Sgiliau
- TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg Iaith a Mathemateg neu Fathemateg-Rhifedd. Gellir defnyddio cydrannau llythrennedd a rhifedd cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru lle y bo'n briodol.
- Dewis o gymwysterau ategol o faint a lefel benodedig

2.39 Caiff y Fagloriaeth ei dyfarnu ar dair lefel:

- Sylfaen (lefel 1), a gaiff ei dyfarnu yng nghyfnod allweddol 4 neu ôl-16
- Cenedlaethol (lefel 2), a gaiff ei dyfarnu yng nghyfnod allweddol 4 neu ôl-16
- Uwch (lefel 3), a gaiff ei dyfarnu i ddysgwyr ôl-16 yn unig.

2.40 Mae pob dysgwr yng Nghyfnod Allweddol 4 yn dilyn Bagloriaeth Cymru lefel Genedlaethol/Sylfaen. Mae dysgwyr yn ennill Bagloriaeth Cymru Sylfaen (lefel 1) neu Genedlaethol (lefel 2) yn seiliedig ar y graddau a enillant ar gyfer pob un o'r cymwysterau cyfrannol. Caiff dysgwyr ôl-16 eu cofrestru ar gyfer y Fagloriaeth Sylfaen ôl-16, y Fagloriaeth Genedlaethol ôl-16 neu'r Fagloriaeth Uwch yn dibynnu ar lefel eu prif raglen ddysgu.

2.41 Cymhwyster newydd ac arloesol sy'n seiliedig ar sgiliau yw'r Dystysgrif Her Sgiliau. Mae pedwar cymhwyster sy'n rhan o'r Dystysgrif Her Sgiliau. Mae pob un yn dilyn strwythur cyffredin, sy'n cynnwys pedwar cydran: y Project Unigol, yr Her Menter a Chyflogadwyedd, yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang a Her y Gymuned. Gyda'i gilydd, nod y pedwar cydran yw galluogi dysgwyr i feithrin saith sgil sydd eu hangen ar gyfer addysg, cyflogaeth a bywyd. Caiff gwaith dysgwyr ar gyfer pob cydran o'r Dystysgrif Her Sgiliau ei farcio gan athrawon mewn ysgolion a cholegau ac ar ôl proses safoni fewnol, caiff sampl o'r gwaith ei chymedroli gan CBAC.

2.42 Er mwyn ennill y Fagloriaeth, mae'n rhaid i ddysgwyr ennill y Dystysgrif Her Sgiliau a'r cymwysterau eraill sy'n rhan o fframwaith y Fagloriaeth. Dyfernir Llwyddiant neu Fethiant ar gyfer Bagloriaeth Cymru. Caiff y radd ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau ei chyfrifo drwy gronni'r sgoriau ar gyfer y cydrannau a rhoddir gradd fel a ganlyn:

- Sylfaen - llwyddiant* a llwyddiant
- Cenedlaethol – A* - C
- Uwch – A* - E

2.43 Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn cyfateb o ran maint i gymhwyster TGAU (lefelau 1 a 2) neu Safon Uwch (lefel 3). Os na fydd dysgwr yn ennill yr holl gymwysterau sydd eu hangen i ennill y Fagloriaeth ond ei fod yn ennill y Dystysgrif Her Sgiliau, yna gellir dyfarnu'r Dystysgrif o hyd.

2.44 Pan gyflwynodd Llywodraeth Cymru Fagloriaeth Cymru ar ei ffurf newydd, cyhoeddodd bolisi y câi ei mabwysiadu'n gyffredinol. Mae'r polisi yn pennu targedau i ysgolion a cholegau addysg bellach gynyddu'n raddol gyfran y dysgwyr sy'n sefyll y Fagloriaeth, gyda'r nod o sicrhau y byddai'r holl ddysgwyr cymwys yng Nghymru yn ei sefyll fel rhan o'u rhaglen astudio erbyn 2019/20.

2.45 Roedd llawer o'r cyfweleion, gan gynnwys cynrychiolwyr ysgolion a phrifysgolion, o'r farn bod Bagloriaeth Cymru yn fesur dibynadwy o allu disgwyl i gyflawni'n academaidd. Bu cydnabyddiaeth eang o'r gwelliannau yn y Fagloriaeth ddiwygiedig ar lefel 3, gyda'r graddio newydd ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau a

chytundeb bod gan y dyfarniad hwn botensial i fod yn werthfawr iawn i ddysgwyr yng Nghyfnodau Allweddol 4 a 5.

"Rwy'n llwyr gefnogi Bagloriaeth Cymru, mae'n gymhwyster cryf iawn, cadarn iawn ac yn gyfle gwych i bobl ifanc ddangos yr holl sgiliau y maent wedi'u datblygu."

2.46 Cytunodd llawer o randdeiliaid fod y Dystysgrif yn annog dysgwyr i weithio'n annibynnol ac yn rhoi cyfleoedd bywyd go iawn iddynt yn ystod eu hastudiaethau. Dywedodd rhai ei bod wedi helpu i ddatblygu sgiliau trefnu a chynllunio, yn eu barn hwy, a'i bod yn annog arloesedd a chreadigrwydd, sef llawer o'r sgiliau sydd eu hangen mewn cyflogaeth.

2.47 Fodd bynnag, nododd llawer o randdeiliaid y gellir gwella'r Dystysgrif ymhellach i'w gwneud yn fwy hydrin a lleihau faint o waith papur sydd ei angen i gwblhau'r gwahanol gydrannau. Nododd ysgolion fod tipyn o ffordd i fynd cyn bod pawb yn argyhoeddedig bod yr amser a'r ymdrech sydd eu hangen i gyflwyno'r cymhwyster yn cael eu troi'n wobr i'r disgybl.

"Mae'r cymhwyster Lefel 2 (y Dystysgrif Her Sgiliau) yn gymhwyster heriol iawn, mae'n llwyth gwaith enfawr. Mae'n effeithio ar yr ysgol a'r disgybl o ran gallu cwblhau hyn..."

2.48 Er mwyn ei helpu i'w chyflwyno mewn ysgolion, mae rhai ysgolion wedi penodi cydgysylltydd Bagloriaeth Cymru i helpu i drefnu cyflwyno'r Dystysgrif Her Sgiliau. Nododd ysgolion fod hyn wedi gwella eu gallu cyffredinol i gyflwyno'r cymhwyster.

2.49 Fodd bynnag, o ran y llwyth gwaith i ddysgwyr, nododd ychydig o aelodau o staff bryderon ynglŷn â nifer y cydrannau yn y Dystysgrif Her Sgiliau a'r amser sydd ei angen ar ddysgwyr i'w cwblhau. Nododd rhanddeiliaid fod yn rhaid i ddysgwyr fynd drwy gydrannau'r Dystysgrif Her Sgiliau yn gyflym a gall cydrannau megis yr her menter a chyflogadwyedd fynd â llawer o amser.

"Mae gennyf bryderon mawr iawn am ei fod yn gymhwyster nad yw'n rhoi cyfle i fyfyrwyr sy'n symud, neu sy'n sâl i ddal i fyny."

2.50 Teimlai ychydig o aelodau o staff mewn colegau addysg bellach ei bod yn llai addas ar lefelau Sylfaen ôl-16 a Chenedlaethol ôl-16 gan eu bod yn teimlo bod gormod o ffocws ar lythrenned a rhifedd roedd llawer o'r dysgwyr hyn wedi cael anhawster gyda hwy yn yr ysgol; arweiniodd hyn at ddysgwyr yn colli diddordeb.

2.51 Cyn mis Medi 2015, roedd dysgwyr yn astudio fersiwn wahanol ar Fagloriaeth Cymru nad oedd yn cynnwys y Dystysgrif Her Sgiliau. Dyfernir llwyddiant neu fethiant ar gyfer y fersiwn hon o'r Fagloriaeth. Ar lefel Uwch, mae graddio'r Dystysgrif Her Sgiliau yn A*-E wedi cynyddu hyder ymhlith rhanddeiliaid o ran ei chyfwerthedd â Safon Uwch. Cafodd hyn ei gadarnhau gan ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru, a nododd fod y Fagloriaeth newydd yn fwy credadwy oherwydd y graddio a'r pwyntiau tariff a ddyfernir ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau.

"Mae hyn yn golygu bod y cymhwyster yn gyfwerth â chymwysterau Safon Uwch eraill ac mae'n ffordd wych i fyfyrwyr o ddangos eu set ehangach o sgiliau a phrofiad. Mae'n rhoi hwb i'w cais ac mae'n rhywbeth y gallant sôn amdano heblaw eu hastudiaethau."

2.52 Nododd llawer o ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru a rhai y tu allan i Gymru eu bod yn cynnig lle i ddarpar fyfyrwyr yn seiliedig ar ei gyrhaeddiad yn y Dystysgrif Her Sgiliau a dwy Safon Uwch.

2.53 Dywedodd pob darparwr addysg uwch a gyfwelwyd fod dysgwyr sydd wedi ennill y Dystysgrif Her Sgiliau ar lefel 3 mewn sefyllfa gryfach na'r rhai nad oeddent wedi'i hennill, am ei bod yn rhoi gwell darlun o allu myfyriwr i ddysgu'n annibynnol. Nododd rhai darparwyr addysg uwch nad oeddent yn cynnwys y Dystysgrif Her Sgiliau mewn cynnig, os nad oedd myfyrwyr yn ennill y graddau yn y tair Safon Uwch ofynnol, y byddent yn ystyried y Dystysgrif Her Sgiliau fel y pedwerydd cymhwyster pe bai wedi'i hennill ac yn ystyried cynnig lle.

2.54 Nododd rhai ysgolion 'wrthwynebiad' i'r argymhelliad y dylai gael ei mabwysiadu'n gyffredinol a nodwyd nad ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ôl-16 astudio'r Dystysgrif Her Sgiliau. Mynegwyd pryderon bod y diffyg cysondeb hwn yn ei gwneud yn anodd ennyn diddordeb dysgwyr ôl-16 a'u rhieni yn y Dystysgrif Her Sgiliau.

2.55 Cafwyd pryderon hefyd fod dysgwyr o Gymru yn cael eu rhoi o dan anfantais am eu bod yn rhoi o'u hamser i astudio ar gyfer cymhwyster nad yw pob darparwr addysg uwch yn ei dderbyn. Roedd rhai rhanddeiliaid yn pryderu'n benodol, yn achos myfyrwyr a oedd yn gwneud cais am gyrsiau penodol, megis pynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM), meddygaeth neu ddeintyddiaeth lle roedd cynigion yn aml yn cael eu rhoi ar sail graddau Safon Uwch yn unig, fod y Dystysgrif Her Sgiliau yn achosi pwysau ychwanegol a diangen. Fodd bynnag, mae enghreifftiau o'r Dystysgrif Her Sgiliau yn cael ei chynnwys fel rhan o gynnig rhai darparwyr addysg uwch ar gyfer y pynciau hyn.

2.56 Roedd sawl darparwr addysg uwch yn ansicr ynglŷn â gwerth a diben Bagloriaeth Cymru lefel Uwch gan mai dim ond y Dystysgrif Her Sgiliau sy'n cael ei graddio. Cytunodd sawl rhanddeiliad fod angen cyfathrebu mwy er mwyn gwella dealltwriaeth a dangos gwerth Bagloriaeth Cymru a'r Dystysgrif Her Sgiliau i rai darparwyr addysg uwch, yn enwedig y tu allan i Gymru.

2.57 Nid yw ysgolion annibynnol yn argyhoeddedig o hyd ynglŷn â rhinweddau Bagloriaeth Cymru ar lefel 1/2 na lefel 3. Dywedodd un ysgol annibynnol y gallai Cymwysterau Cymru wneud mwy i gyfathrebu â hi er mwyn codi proffil brand cymwysterau Cymru a Bagloriaeth Cymru.

Cymwysterau Galwedigaethol

2.58 Roedd lefel isel o ddealltwriaeth neu ymwybyddiaeth o ddosbarthiad cymwysterau AHGC a chymwysterau AHGP y tu hwnt i golegau addysg bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith, ond nid oedd gwrthwynebiad i'r dosbarthiad. Nododd darparwyr dysgu seiliedig ar waith a cholegau addysg bellach fod y broses o lanhau cymwysterau ar gronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru (QiW) wedi arwain at anhawster i wybod pa gymwysterau y gellir eu cyflwyno o hyd mewn canolfannau.

2.59 Roedd rhai rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r newidiadau i gymwysterau galwedigaethol (o ganlyniad i newidiadau polisi yn Lloegr) a oedd yn ymwneud â symud tuag at asesiad ar ddiwedd y cwrs, yn hytrach nag asesiadau modiwlar.

> *"Roedd ysgolion yn bendant yn ceisio ystumio'r drefn ac roedd yn rhaid rheoli hyn."*

2.60 Fodd bynnag, codwyd rhai pryderon bod y symud tuag at asesiad ar ddiwedd y cwrs yn dod yn fwyfwy cyffredinol, er anfantais bosibl llawer o ddysgwyr nad ydynt yn perfformio cystal mewn arholiadau ar ddiwedd y flwyddyn.

2.61 Cytunodd y rhan fwyaf o randdeiliaid fod delwedd cymwysterau galwedigaethol wedi cael ei niweidio oherwydd y defnydd cyffredinol blaenorol o gymwysterau galwedigaethol gan ysgolion yn lle cymwysterau TGAU, yn enwedig i ddysgwyr lefel is.

2.62 Cododd sawl rhanddeiliad bryderon bod cymwysterau galwedigaethol yn cael eu hepgor yn raddol o'r cwricwlwm, yn enwedig ym maes dysgu cyn 16 a hefyd bryder ynglŷn â'r neges y mae hyn yn ei chyfleu i ddysgwyr sydd am ddilyn llwybr galwedigaethol ôl-16 o bosibl o ganlyniad i hynny.

> *"Rydym wedi gweithio'n galed i ennyn diddordeb ein holl ddysgwyr ac rydym yn pryderu y bydd llawer yn colli diddordeb ac yn ymddieithrio oddi wrth ddysgu, yn sicr ar ôl 16 oed o ganlyniad i'w profiadau."*

2.63 Yn ôl rhai rhanddeiliaid, mae cymwysterau TGAU y tu hwnt i gyrraedd rhai dysgwyr ac yn absenoldeb cymwysterau BTEC neu gymwysterau galwedigaethol eraill, mae pryder y bydd llawer yn gadael heb fawr ddim cymwysterau, os o gwbl.

2.64 Nododd rhai ysgolion nad oeddent yn cyflwyno cymwysterau Gwyddoniaeth BTEC oherwydd y newidiadau mewn mesurau perfformiad ysgol. Teimlai rhanddeiliaid y tu allan i'r sector ysgolion fod penderfyniad cadarnhaol i atal ysgolion rhag 'ystumio' mesurau perfformiad ond roedd yr ysgolion eu hunain yn pryderu mwy nad oeddent yn gallu dewis y cymhwyster mwyaf priodol i'r dysgwr.

> *"Llynedd, roedd dysgwr a oedd wedi ennill BTEC mewn Gwyddoniaeth wedi mynd yn ei flaen i astudio Radiograffeg yn y brifysgol. Mae'r llwybr hwn wedi'i gau iddo bellach gan na fyddai wedi ennill y dyfarniad dwbl."*

Prentisiaethau

2.65 Er nad yw Prentisiaethau o fewn cylch gwaith Cymwysterau Cymru (er bod y cymwysterau a ddefnyddir ynddynt o fewn ei gylch gwaith), cododd sawl rhanddeiliad rai pwyntiau pwysig sy'n werth eu nodi.

2.66 Roedd cefnogaeth gan randdeiliaid allweddol a oedd yn cynrychioli'r sector i'r penderfyniad i gadw'r Fframwaith Prentisiaeth yng Nghymru yn hytrach na'r Safonau Prentisiaeth yn Lloegr.

2.67 Mae gwahaniaethau mewn fframweithiau/safonau Prentisiaeth rhwng Cymru a Lloegr o ran cynnwys ac asesu wedi creu heriau i ddarparwyr a chyflogwyr. Mae cyflogwyr sy'n gweithredu ar draws ffiniau Cymru a Lloegr am i'w prentisiaid ymgymryd â'r un fframwaith/safon am resymau cysondeb a chyflawniad cyfartal. Mae gwahaniaethau mewn strwythurau prentisiaeth yn her ychwanegol i ddarparwyr sy'n cynnig prentisiaethau i gyflogwyr mawr, ac mae'n rhaid i ddarparwyr weithio eu ffordd drwy'r gwahanol ofynion.

2.68 Yn ôl darparwyr dysgu seiliedig ar waith, yn wahanol i Loegr, lle nad yw dysgwyr yn cael dewis y meysydd dysgu i'w hastudio, yng Nghymru mae dysgwyr yn cael y dewis a gallant ddewis meysydd sgiliau penodol sydd fwyaf diddorol iddynt. Awgrymodd darparwyr dysgu seiliedig ar waith fod yn well ganddynt y modiwl hwn am ei fod yr hyn a ddysgir yn cadw'n agos at ddiddordeb dysgwr.

> *"Mae model Lloegr yn debyg iawn i fynd yn ôl i'r coleg ac ni fydd hyn yn briodol i bob dysgwr."*

2.69 Beirniadodd rhai darparwyr dysgu seiliedig ar waith y rheol ynglŷn â chwblhau tasg/asesiad dan reolaeth o fewn wyth wythnos[14]. Os na fydd dysgwr yn cwblhau'r cymhwyster o fewn y terfyn amser hwn, mae'n rhaid iddo ailsefyll y dasg/asesiad dan reolaeth.

> *"Mae hwn yn rhwystr i ddysgwyr, yn enwedig dysgwyr hŷn ac mae wedi effeithio ar ein cyfraddau cadw ac mae ein cyfraddau llwyddo wedi gostwng."*

2.70 Nodwyd rhwystredigaeth arall ynglŷn â'r Themâu Trawsbynciol o fewn y fframwaith prentisiaeth a'r ffaith nad yw cyrff dyfarnu ar hyn o bryd yn rhoi digon o gymorth i ganolfannau ynglŷn â sut y gellir mynd i'r afael â'r themâu drwy'r cymwysterau sy'n cael eu sefyll o fewn y brentisiaeth. Ar gyfer rhai prentisiaethau, gall ymgorffori Themâu Trawsbynciol megis dinasyddiaeth fod yn anghyson â'r maes pwnc, er enghraifft peirianneg, sy'n ei gwneud yn anodd cyflwyno'r elfennau hyn.

[14] Mae Cymwysterau Cymru wedi rhoi eglurder nad yw gwyliau academaidd nac absenoldeb dilys gan y dysgwr yn cyfrif tuag at yr wyth wythnos.

Crynodeb

2.71 Mae cryn dipyn o hyder mewn cymwysterau TGAU a Safon Uwch; y canfyddiad yw bod safonau wedi gwella, yn enwedig mewn cymwysterau TGAU a bod y manylebau newydd yn annog mwy o ddysgu annibynnol. Ystyrir bod manylebau mwy llinol ac arholiadau allanol yn gwneud cymwysterau'n fwy trylwyr, ond mae rhanddeiliaid yn teimlo bod gwerth o hyd mewn asesiadau dan reolaeth ac asesiadau modiwlar mewn rhai cymwysterau. Mae Bagloriaeth Cymru wedi cael ei gwella ond erys pryderon o hyd ynglŷn â'r ffordd y mae'n cael ei gweinyddu ac amheuwyd gwerth gwirioneddol y Fagloriaeth ar lefel 3, y tu allan i'r Dystysgrif Her Sgiliau. Mae cymwysterau galwedigaethol mewn ysgolion uwchradd yn ddewis amgen pwysig i rai dysgwyr ac mae'r penderfyniad i dynnu cymwysterau BTEC mewn Gwyddoniaeth yn ôl o'r cwricwlwm ysgol, oherwydd newidiadau mewn mesurau perfformiad ysgol, wedi achosi ychydig o bryder, a hefyd fanyleb newydd TGAU mewn Gwyddoniaeth. Ceir pryderon ynglŷn â'r gwahaniaethau rhwng fframweithiau Prentisiaeth yng Nghymru a safonau Prentisiaeth yn Lloegr sy'n arwain at dirwedd gymhleth i ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith.

3 HYDER YN Y SYSTEM GYMWYSTERAU

Cyflwyniad

3.1 Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth a nodwyd gan randdeiliaid ynglŷn â'r system gymwysterau. Mae'r system gymwysterau yn yr astudiaeth ymchwil hon yn cyfeirio at gyrff dyfarnu a'r corff rheoleiddio Cymwysterau Cymru. Fodd bynnag, roedd llawer o randdeiliaid am siarad yn fwy cyffredinol ynglŷn â sut mae polisïau, gan gynnwys perfformiad ysgolion, y sylw a roddir i PISA a'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr, yn effeithio ar y system gymwysterau.

3.2 Felly, mae'r adran hon yn cynnwys safbwyntiau rhanddeiliaid ar y canlynol:

- Hyder yn Cymwysterau Cymru ac asiantaethau allweddol
- Un corff dyfarnu yn cynnig y cymwysterau cyffredinol diwygiedig.
- Adolygu cymwysterau galwedigaethol
- Meysydd eraill sy'n ymwneud â pholisi

Hyder yn Cymwysterau Cymru ac Asiantaethau Allweddol

Rhoi arweinyddiaeth gadarn a lefel uchel o dryloywder

3.3 Cydnabuwyd bod Cymwysterau Cymru yn sefydliad cadarn a oedd yn rhoi arweinyddiaeth ac eglurder ynglŷn â materion rheoleiddio a chymwysterau. Nododd cyrff dyfarnu lefelau da o gyfathrebu a lefel dda o gysondeb o ran rheoleiddio.

"Mae amodau cydnabod cymwysterau yn gyson dros amser sy'n helpu sefydliadau dyfarnu."

3.4 Mae Cymwysterau Cymru wedi ymgynghori â sefydliadau dyfarnu'n briodol, wedi rhoi gwybodaeth glir a rheolaidd am faterion rheoleiddio a'r newidiadau arfaethedig i gymwysterau. Mae'r ffordd y mae wedi ymgysylltu â'r sector, drwy gynadleddau, grwpiau rhanddeiliaid a negeseuon e-bost, yn arwydd cadarnhaol o'i barodrwydd i weithio mewn partneriaeth â'r sector. Mae cyfarfodydd rheolaidd â phenaethiaid yn helpu i gadw sianeli cyfathrebu ar agor ac yn rhoi'r cyfle i drafod a rhannu syniadau a phryderon.

3.5 Canmolwyd y sefydliad am ei barodrwydd i wrando, sef 'bod yn barod i siarad', 'yn agored' ac 'yn dryloyw'. Roedd barn ffafriol am Cymwysterau Cymru o ganlyniad i'r dull gweithredu hwn.

3.6 Cydnabu llawer o randdeiliaid hefyd fod Cymwysterau Cymru yn gweithredu mewn tirwedd heriol gyda chryn dipyn o ddylanwadau gwleidyddol ar y system addysg. Yn benodol, ystyriwyd bod y terfynau amser ar gyfer cyflwyno diwygiadau

i gymwysterau yn afrealistig, ond canmolwyd Cymwysterau Cymru am reoli'r newidiadau arfaethedig cystal ag y bo'n ymarferol bosibl.

3.7 Nododd rhanddeiliaid fod strategaethau gan Cymwysterau Cymru, Llywodraeth Cymru ac Estyn yn ymddangos yn gydlynol, a bod cytundeb cyffredinol ynghylch ble mae angen gwelliannau o fewn y system addysg ehangach. Mae hyn wedi helpu i ennyn hyder yn y system.

> *"Yng Nghymru, mae'r sefydliadau allweddol i gyd yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn gwella safonau yng Nghymru. Maent i gyd yn helpu i sicrhau ein bod yn symud tuag at yr un nodau ac yn symud ar yr un cyflymder."*

Rolau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a CBAC

3.8 Er gwaethaf y cryfderau mewn arweinyddiaeth a nodir uchod, yn ôl rhai a gyfwelwyd yn y consortia rhanbarthol, erys amryfusedd o hyd ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a CBAC.

> *"Nid wyf yn hollol glir ynglŷn â'i rôl a rôl CBAC...lle mae'r ffin... beth mae'r naill a'r llall yn ei wneud, a gwn fod yr amryfusedd hwn yn eithaf cyffredinol mewn ysgolion."*

3.9 Mynegwyd rhai pryderon ynglŷn â chyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a CBAC. Nododd rhanddeiliaid yn y consortia rhanbarthol nad oedd y llif o wybodaeth bob amser yn gyson, ac weithiau, y gallai Cymwysterau Cymru gyfathrebu'n fwy uniongyrchol â chonsortia rhanbarthol er mwyn atal unrhyw amryfusedd.

> *"Gellir gofyn cwestiynau ac nid yw'n annhebygol y byddwn yn cael atebion croes gan y tri sefydliad."*

3.10 Awgrymodd ychydig o randdeiliaid y gall y diffyg eglurder hwnnw arwain at sefyllfa lle mae arbenigwyr yn trosglwyddo o Lywodraeth Cymru i Cymwysterau Cymru ac yn mynd â'u gwybodaeth am bolisïau gyda hwy.

3.11 Mynegodd ychydig o randdeiliaid y farn y dylai Cymwysterau Cymru fod yn gallu gwrthwynebu penderfyniadau Llywodraeth Cymru weithiau, yn enwedig o ran amserlennu newidiadau a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar ansawdd adnoddau a pharodrwydd i addysgu am y tro cyntaf ym mis Medi.

Un corff dyfarnu yn cynnig y cymwysterau cyffredinol diwygiedig

3.12 Gofynnodd Llywodraeth Cymru am ddatganiadau o ddiddordeb i gynnig y cymwysterau diwygiedig yng Nghymru a dim ond CBAC a ymatebodd. Cymysg fu'r farn ynglŷn â'r sefyllfa sydd wedi deillio o hynny, sef mai dim ond un corff dyfarnu sy'n cynnig y cymwysterau cyffredinol diwygiedig. Roedd y safbwyntiau a fynegwyd yn cynnwys y meysydd canlynol:

- datblygu brand o gymwysterau sy'n unigryw i Gymru
- y risg sy'n ymwneud â llai o gystadleuaeth
- diffyg dewis o ran manylebau
- amserlen y newidiadau i gymwysterau

Datblygu brand o gymwysterau sy'n unigryw i Gymru

3.13 Roedd llawer o randdeiliaid yn gadarnhaol o blaid y penderfyniad i fabwysiadu brand o gymwysterau i Gymru a'r cyfle a ddaw yn ei sgil i deilwra cymwysterau'n well at dirwedd Cymru a'r farchnad sy'n datblygu yng Nghymru.

"Bydd yn rhaid i gyrff dyfarnu roi mwy o sylw i strategaethau Llywodraeth Cymru a'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru wrth iddynt ddylunio cymwysterau... rhaid bod hyn yn beth da i Gymru."

3.14 Fodd bynnag, roedd gan rai rhanddeiliaid amheuon y gallai roi pobl ifanc sy'n cael eu haddysg yng Nghymru o dan anfantais.

"Mae risg anochel ynghlwm wrth y penderfyniad hwn i roi'r holl wyau mewn un fasged ac mae hyn yn gwneud i mi deimlo ychydig yn nerfus os down ar draws problemau."

3.15 Cydnabuwyd bod CBAC yn gorff dyfarnu cadarn, ac yntau wedi gweithredu yng Nghymru ers blynyddoedd lawer. Mae cryn gefnogaeth i'r penderfyniad i weithio drwy CBAC.

"CBAC yw'r unig gorff dyfarnu a ymgynigiodd a chredaf ei fod yn cynnig cymwysterau cadarn ac wedi rhoi gwasanaeth da i Gymru."

"Nid oes dim rheswm dros beidio â disgwyl y byddai'n cyflawni i safon uchel."

3.16 Nododd sawl rhanddeiliad y bydd un corff dyfarnu yn helpu i sicrhau cysondeb o ran safonau ac ennyn hyder yn y system. Bydd modd dadansoddi data ar ddeilliannau disgyblion ar lefel genedlaethol a bydd modd i'r corff dyfarnu gael set ddata hollgynhwysol ar gyrhaeddiad, a fydd yn fanteisiol iddo, ac y gall wneud penderfyniadau cyson a dibynadwy ynglŷn â dyfarniadau yn seiliedig arni.

Risgiau posibl sy'n ymwneud â llai o gystadleuaeth a chydweithio

3.17 Nododd rhanddeiliaid eu bod yn teimlo ychydig yn anesmwyth ynglŷn â'r penderfyniad i newid i un corff dyfarnu a'r berthynas rhwng CBAC, Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru o ganlyniad i hynny. Y canfyddiad ymhlith rhanddeiliaid yw mai sefydliad sy'n gwneud elw yw CBAC (er mai elusen sy'n gallu gwneud elw ydyw mewn gwirionedd) a bod angen ystyried sefyllfa CBAC yn ofalus o fewn yr hyn a elwid gan randdeiliaid yn 'y trefniant teirochrog' yn y dyfodol.

"Nid oes unrhyw femorandwm cyd-ddealltwriaeth i sicrhau bod ffiniau'n briodol."

3.18 Nododd sawl rhanddeiliad bryderon am yr hyn a ystyriwyd yn fonopoli ganddynt, a'r effaith ar ansawdd yn y tymor hwy.

"Ai'r peth gorau o reidrwydd i farchnad yw bod un corff mawr? Na, fwy na thebyg."

"Mae angen i ni ystyried y rhan y mae cystadleuaeth yn ei chwarae o ran cynnal ansawdd."

3.19 Roedd ychydig o randdeiliaid yn ystyried effaith cael un corff dyfarnu yn y tymor canolig neu'r tymor hwy. Awgrymwyd y gall cyrff dyfarnu eraill encilio o Gymru am eu bod yn ei chael hi'n anodd cadw eu busnes yn hyfyw. Er mwyn cynnig cymwysterau yng Nghymru mae'n ofynnol eu cynnig yn Gymraeg hefyd; wrth i botensial busnes cyrff dyfarnu gael ei gwtogi i lai o gymwysterau, bydd cefnogi'r elfen iaith ychwanegol yn mynd yn fwy costus.

3.20 Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn bod symud i un corff dyfarnu yn cyfyngu ar greadigrwydd posibl o ran dylunio cymwysterau a'u strwythur yn y dyfodol.

"Pan ddaw cyrff dyfarnu at ei gilydd, gall arwain at arloesedd ac mae'r newid hwn yn gwneud hynny'n llai tebygol."

3.21 Rhoddwyd enghraifft gan randdeiliad o ba mor llwyddiannus fu datblygiad cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru, a oedd wedi cynnwys pedwar corff dyfarnu yn dod ynghyd i ddylunio cymwysterau effeithiol iawn.

3.22 Nododd rhanddeiliaid yn fwy cyffredinol fod angen sicrwydd arnynt y bydd Cymwysterau Cymru yn rheoli'r gydberthynas â CBAC yn ofalus, ac y bydd yn adolygu safon y gwasanaeth y mae'r corff dyfarnu hwn yn ei roi i'r sector drwy'r amser.

Diffyg dewis o ran manylebau

3.23 Cyn y newidiadau, nododd llawer o ysgolion eu bod yn defnyddio nifer o gyrff dyfarnu i gyflwyno eu dewis o gymwysterau, yn dibynnu ar gohortau disgyblion a manylebau. O ganlyniad i symud i un corff dyfarnu ar gyfer cymwysterau cyffredinol diwygiedig, mynegwyd pryderon ynglŷn â'r diffyg dewis o ran manylebau os ystyriwyd nad oedd manylebau CBAC yn briodol i'w dysgwyr nac yn gyffrous i'w haddysgu.

"Nid oes gennym y dewis hwnnw mwyach. Os nad ydym yn hoffi manyleb newydd pwnc, nid oes dewis gennym ond ei dilyn."

"Yn fy marn i, nid yw'n deg i'r plant mai dim ond llwybr Cymru gyfan sydd ar gael. Nid wy'n teimlo y gallwn ddewis y cymwysterau gorau i'r dysgwr."

3.24 Er enghraifft, nid yw manyleb newydd gwyddoniaeth 'wedi taro'r nod' yn nhyb ysgolion, ond nid oes dewis ond ei chyflwyno. Roedd yn well gan rai ysgolion fanylebau OCR ac roeddent o'r farn bod y newid gorfodol i CBAC yn rhoi eu disgyblion o dan anfantais. Soniodd eraill am faterion mewn perthynas â mathemateg a'r hyblygrwydd sydd ar gael y tu allan i Gymru:

> *"Yn Lloegr, mae nifer o bapurau mathemateg ac mae strwythur y rhain yn wahanol iawn, mae rhai papurau yn bapurau cwestiynau hir, ac mae rhai yn fyrrach. Gallem ddewis pa un i'w ddefnyddio, yn dibynnu ar gryfder y disgyblion sy'n dod drwodd."*

3.25 Nododd rhai ysgolion eu bod yn teimlo o dan anfantais o'u cymharu ag ysgolion yn Lloegr, gan nodi bod dewis gan ysgolion yn Lloegr, gyda mwy o lwybrau er mwyn iddynt sicrhau bod anghenion dysgwyr yn cael eu hystyried.

Amserlen y newidiadau i gymwysterau

3.26 Yn ôl llawer o randdeiliaid, mae'r amserlenni ar gyfer newidiadau i fanylebau wedi bod yn rhy dynn. O ganlyniad, ni fu digon o amser i ddatblygu adnoddau newydd nac i athrawon ymgyfarwyddo â'r cynnwys a datblygu cynlluniau gwaith newydd.

3.27 Mae rhai rhanddeiliaid yn teimlo nad yw CBAC wedi cael digon o amser i ddarparu adnoddau o ansawdd uchel a bod pryderon y gall Cymru fod o dan anfantais o gymharu â'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig, yn ôl y canfyddiad, yn Lloegr.

> *"Mae ysgolion yn Lloegr yn cael mwy o adnoddau, mae mwy o arbenigwyr ac ymarferwyr sy'n gallu rhoi cymorth."*

3.28 Er bod rhai wedi cyfeirio at fanylebau cadarn a deunyddiau canllaw da i athrawon, roedd eraill wedi nodi manylebau hwyr, oedi cyn cael deunyddiau enghreifftiol a gwerslyfrau ynghyd â gwallau mewn asesiadau enghreifftiol.

3.29 Nododd ysgolion cyfrwng Cymraeg fod adnoddau hwyr wedi cael effaith fawr, gyda rhai adnoddau'n dod i law chwe mis ar ôl i'r adnoddau Saesneg gael eu cyhoeddi, gan roi baich ychwanegol ar athrawon i gyfieithu'r adnoddau eu hunain.

3.30 O ran parodrwydd athrawon yn fwy cyffredinol, nododd rhanddeiliaid fod CBAC wedi ymgysylltu'n dda ag ysgolion ac wedi rhoi lefel dda o hyfforddiant mewn swydd. Nododd ychydig o randdeiliaid fod ansawdd y cymorth gan swyddogion pwnc CBAC yn anghyson, gyda rhai yn rhoi cymorth ac adnoddau ardderchog, tra bod eraill yn rhoi llai o gymorth.

3.31 Mynegwyd ychydig o bryderon ynglŷn â'r cynnydd ym mhrisiau deunyddiau DPP ac adnoddau i athrawon. Yn ôl yr ysgolion llai o faint, mae cost hyfforddiant yn uchel dros ben.

> *"Nid wyf yn meddwl bod arbedion maint ganddynt, mae cost cofrestru wedi codi a chodi."*

3.32 Haerodd un rhanddeiliad fod angen i CBAC weithio'n agosach gyda chonsortia rhanbarthol er mwyn sicrhau bod y cymorth i athrawon yn amserol ac o ansawdd priodol. Mae CBAC yn ystyried datblygu cyfleoedd ar gyfer mwy o gydweithredu. Un awgrym oedd y gallai CBAC gynnal arolwg o ysgolion er mwyn cael adborth ar ei gymorth ym mhob maes pwnc.

Adolygu cymwysterau galwedigaethol

3.33 Nododd llai o randdeiliaid bryderon ynglŷn â chymwysterau galwedigaethol gan mai megis cychwyn y mae'r ffocws ar newid.

3.34 Fodd bynnag, roedd rhanddeiliaid am gael sicrwydd o ran y camau nesaf ar gyfer cymwysterau galwedigaethol. Roedd gan rai bryderon, pe bai'r broses a fabwysiadwyd yn achos cymwysterau cyffredinol, sef symud i un corff dyfarnu, yn cael ei mabwysiadu i ddatblygu cymwysterau galwedigaethol newydd, yna y byddai hynny'n cael effaith andwyol ar ddysgwyr a llwybrau dysgu tuag at addysg bellach ac uwch. Nododd un darparwr addysg bellach fod Cymwysterau Cymru yn mynd yn rhy amharod i fentro ac yn codi gormod o rwystrau i ddatblygu cymwysterau. Roedd wedi dymuno cyflwyno cymhwyster penodol ond ni allai'r corff dyfarnu gael cymeradwyaeth.

3.35 Yn ôl rhanddeiliaid, gofynnwyd i gyrff dyfarnu fod yn fwy ymatebol i gyflogwyr ac roeddent wedi treulio amser yn mapio sgiliau a oedd yn ymwneud ag anghenion cyflogwyr.

3.36 Byddai newid sylweddol ym maes cymwysterau galwedigaethol, ym marn rhai rhanddeiliaid a darparwyr, yn achosi problemau i ddarparwyr sydd â chyllidebau wedi'u neilltuo i gyrff dyfarnu a, thrwy orfod newid cyrff dyfarnu, y gall fod cost gynyddol (ar ffurf ffioedd ychwanegol) i'w busnes. Byddai rhanddeiliaid yn croesawu datganiad gan Cymwysterau Cymru ynglŷn â sut y mae'n bwriadu bwrw ymlaen â diwygiadau galwedigaethol.

3.37 Roedd rhanddeiliaid yn cefnogi'r ffordd roedd Cymwysterau Cymru wedi mynd ati i ddiwygio cymwysterau galwedigaethol: cytunwyd y bydd diwygio fesul sector yn helpu i sicrhau ei fod yn ymgysylltu ac yn ymgynghori'n llawn â chanolfannau, cyflogwyr a chynrychiolwyr cyflogwyr ar yr angen i ddiwygio ac i ba gyfeiriad y dylid mynd.

3.38 Nododd rhanddeiliaid fod yr adroddiad[15] ar yr adolygiad sector o Iechyd a Gofal Cymdeithasol a luniwyd gan Cymwysterau Cymru wedi dangos yn glir iawn fod angen adolygu'r cymwysterau galwedigaethol a gynigir yn y sector.

[15] Cymwysterau Cymru (2016) Adolygiad Sector o Gymwysterau a'r System Gymwysterau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, http://www.qualificationswales.org/media/1903/hsc-report-2016-w.pdf

"Nid oedd uniondeb proffesiynol yn perthyn i'r cymwysterau ac nid oeddent yn cael eu parchu gan y sector...roedd llawer o gynnwys a llawer o ddyblygu...y gobaith yw y bydd y rhai newydd yn symleiddio'r cynnwys a'i gwneud yn haws i gynllunio unedau."

3.39 Yn ôl un rhanddeiliad, bydd y gyfres newydd o gymwysterau yn symud y sector ymlaen tuag at lefel newydd o broffesiynoldeb. Mae'r contract yn gam sylweddol ymlaen ac mae'n cynnwys datblygu 19 o gymwysterau newydd. Bydd hyn yn herio'r cyrff dyfarnu (Sefydliad y Ddinas a'r Urddau a CBAC) i lunio 'cymwysterau hynod berthnasol o ansawdd uchel'. Bydd llwybr newydd o Lefel 3 i Lefel 4 a fydd yn rhoi dilyniant i ddysgu Lefel 5, sef rhywbeth nad yw'r cymwysterau presennol yn ei gynnwys.

3.40 Nododd un darparwr dysgu seiliedig ar waith fod diffyg cymwysterau Lefel 1 ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ddysgwyr 16-19 oed a bod hyn yn achosi problemau i rai o'i ddysgwyr.

"Mae'n ymddangos bod Cymwysterau Cymru yn anghofio am hyfforddeiaethau."

3.41 Mynegodd rhai rhanddeiliaid, canolfannau a chyrff dyfarnu yn bennaf, bryderon ynglŷn â graddfa'r newidiadau a'r ffordd y gall hyn effeithio ar ba gymwysterau y bydd canolfannau yn gallu eu cynnig, yn enwedig mewn perthynas â gofal plant.

"Nid yw'r broses gomisiynu hon wedi defnyddio'r arbenigedd cadarn yn y sector, yn enwedig mewn perthynas â gofal plant."

3.42 Ers hynny, mae Cymwysterau Cymru wedi cyfarfod â'r prif ddarparwyr a chanolfannau'r Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ganolfannau.

3.43 Canmolwyd Cymwysterau Cymru hefyd am ganolbwyntio ar feithrin y gallu yn y sector i ymgymryd â sicrwydd ansawdd annibynnol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y gall y sector ymateb i'r defnydd cynyddol o asesiadau allanol.

Materion sy'n ymwneud â Pholisi

- Mesurau perfformiad ysgolion
- Cwricwlwm / PISA

Mesurau perfformiad ysgolion

3.44 Roedd llawer o randdeiliaid yn pryderu o hyd ynglŷn â'r ffordd mae mesurau perfformiad ysgol Llywodraeth Cymru yn ysgogi diwylliant o addysgu at y prawf mewn ysgolion a bod hyn yn effeithio ar ansawdd addysgu a dysgu. Er gwaethaf y newidiadau i gymwysterau, wynebir cryn bwysau ac mae pwysau o'r tu allan i'r system yn cael effaith negyddol ar ddisgyblion o hyd.

"Dylai addysgu da fod yn gyson â deilliannau da, ond mae gennym system sy'n annog addysgu at y prawf, ac felly nad yw'n annog myfyrwyr i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy".

3.45 Cydnabuwyd bod y llywodraeth wedi ceisio cael y sector i dderbyn y system rheoli perfformiad newydd ar gyfer monitro perfformiad ysgolion a bod y system newydd, ei bod yn gymhleth, yn welliant ar yr hen system o bum gradd A* i C. Mae'n annog newid oddi ar roi gormod o ffocws ar raddau A-C gan ysgolion.

3.46 Nododd sawl rhanddeiliad mai cynnydd disgybl ddylai fod yn fesur llwyddiant yn hytrach nag ennill Gradd C neu uwch. Mae hyn yn annog ysgolion i ysbrydoli dysgwyr ar ba lefel bynnag y maent yn gweithio. Teimlodd un rhanddeiliad fod yr amrywiaeth o gymwysterau y mae disgyblion yn astudio ar eu cyfer yn lleihau, wrth i ysgolion ganolbwyntio mwy ar gyflawniad yn y pynciau craidd.

"Mae llawer gormod o bwyslais ar ysgolion i gael plant heibio i Radd C ac mae hyn yn eu hatal rhag rhoi ffocws gwirioneddol ar ymestyn y rhai mwy galluog a gwella'r rhai llawer llai galluog."

"Dylai cynnydd fod yn llawer pwysicach na mesur gradd C i ddisgyblion penodol...er mwyn i blentyn symud o radd G i E, mae hynny'n anhygoel."

"Mae anelu at Radd C wedi arwain at gyffredinedd... mae ein safle yn nhabl PISA yn arwydd o hyn."

Y cwricwlwm a PISA

3.47 Roedd ymdeimlad o obaith a chyffro ynglŷn â chwricwlwm newydd Dyfodol Llwyddiannus[16]. Cafwyd cytundeb cyffredinol i'r cyhoeddiad i ohirio'r broses o'i gyflwyno fesul cam o 2022, fel y gall y sector ysgolion fod yn fwy parod.

3.48 Fodd bynnag, roedd rhai rhanddeiliaid yn pryderu bod y ffocws presennol ar PISA a lywiodd y diwygiadau diweddar i gymwysterau wedi gosod y wlad ar ben llwybr sy'n groes i Dyfodol Llwyddiannus. Mynegodd sawl rhanddeiliad bryderon na fydd y cymwysterau na'r broses asesu yn gyson â'r cwricwlwm newydd, yn enwedig "sut rydym am i'n dysgwyr ddysgu a datblygu eu sgiliau meddwl."

3.49 *"Nid wyf yn hollol argyhoeddedig ein bod wedi cael y dull gweithredu cywir eto."*

3.50 Cafwyd pryderon hefyd fod PISA yn dylanwadu ar arddulliau asesu a all fod yn fwy perthnasol i'r dysgwyr sy'n cyflawni'n well, ond nid i bawb.

"Rwy'n pryderu am y cyfeiriad cyffredinol a ph'un a ydym yn ceisio gwasgu pob dysgwr i mewn i'r un patrwm... bydd llawer yn cael eu gadael ar ôl."

[16] Donaldson, G. (2015) Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru

3.51 Roedd gan rai rhanddeiliaid bryderon o ran cyfeiriad y system addysg, a oedd yn ymwneud â rhannu dysgu yn adrannau a sianelu dysgwyr drwy'r un llwybrau, yn wahanol i Ewrop, lle mae llawer mwy o hyblygrwydd ac, yn benodol, y tybir bod llwybrau galwedigaethol yn llawer mwy datblygedig.

3.52 Yn gysylltiedig â'r mater hwn, roedd sawl rhanddeiliad yn pryderu bod ysgolion yn symud yn rhy bell i ffwrdd o'r defnydd o gymwysterau BTEC a chymwysterau galwedigaethol eraill yn eu cwricwlwm ac y bydd hyn yn rhoi dysgwyr penodol o dan anfantais.

> *"Bu'n rhaid mynd i'r afael â'r broblem o ran y defnydd o BTEC gan fod ysgolion yn ei ddefnyddio fel ffordd o gadw eu perfformiad ysgol. Erbyn hyn, rydym yn symud i'r pegwn arall fwy na thebyg, lle nad yw ysgolion yn cynnig cymwysterau BTEC am fod llai o fantais a bellach nad yw dysgwyr a fyddai wedi cael budd ohono yn cael cynnig y llwybr hwnnw. Mae angen cadw llygad ar hyn."*

3.53 Pwysleisiodd rhai rhanddeiliaid bwysigrwydd y gwersi a ddysgwyd o'r broses o ddiwygio cymwysterau.

> *"Mae'n bwysig bod Cymru yn dysgu'r gwersi o'r cyfnod hwn o newid mewn cymwysterau. Rydym ar fin symud i gylch pwysig o newid dros yr ychydig flynyddoedd nesaf a bydd angen i Gymru gynllunio'n ofalus er mwyn osgoi'r risgiau a methiant i achub ar y cyfle a gyflwynir yn Dyfodol Llwyddiannus."*

Crynodeb

3.54 Ystyrir bod Cymwysterau Cymru yn sefydliad cadarn, sy'n rheoleiddio'n dda. Mae'n sefydliad agored a thryloyw sy'n gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid. Mae'r weledigaeth ar gyfer newid yn eglur ond mynegwyd rhai pryderon ynglŷn â'r sefyllfa lle mai dim ond un corff dyfarnu sy'n cynnig y cymwysterau cyffredinol diwygiedig. Mae cefnogaeth i CBAC, ond mynegwyd pryderon ynglŷn â diffyg cystadleuaeth a gallu CBAC i gefnogi'r sector, yn enwedig yn ystod y cyfnod o newid.

3.55 Mae cefnogaeth i'r adolygiadau fesul sector a'r cymwysterau newydd sy'n deillio ohonynt. Mae gan rai canolfannau bryderon os bydd amrywiaeth eang o gymwysterau galwedigaethol yn cael eu cyfyngu fel mai dim ond nifer gyfyngedig o gyrff dyfarnu fydd yn eu darparu.

3.56 Mae cefnogaeth gyffredinol i newid, ond mae pryderon hefyd fod y broses bresennol o fesur perfformiad ysgolion yn cael gormod o effaith ar ysgolion a'r amgylchedd dysgu. Gan edrych ymlaen, mae rhanddeiliaid am gael sicrwydd y caiff gwersi eu dysgu o'r ymarfer hwn ac y caiff penderfyniadau ynglŷn â newidiadau arfaethedig, fel rhan o Dyfodol Llwyddiannus, eu gwneud er mwyn sicrhau bod safonau a hyder yn y system yn cael eu cynnal.

4 CASGLIADAU

Hyder mewn Cymwysterau

4.1 Mae rhanddeiliaid yng Nghymru yn rhoi gwerth mawr o hyd ar gymwysterau TGAU a Safon Uwch. Nododd rhanddeiliaid eu bod yn arwydd dibynadwy o wybodaeth a sgiliau disgybl a'i ymroddiad i ddysgu.

4.2 Cytunodd llawer o rhanddeiliaid fod angen diwygio cymwysterau. Mae'r diwygiadau wedi helpu i sicrhau bod cymwysterau yn rhoi portffolio cadarn o ddysgu ac asesu i bobl ifanc yng Nghymru.

4.3 Cydnabuwyd bod safonau TGAU wedi cael eu codi o ganlyniad i'r diwygiadau. Roedd rhanddeiliaid yn cefnogi'r ffocws cynyddol ar sgiliau llythrennedd a rhifedd ym mhob rhan o'r cwricwlwm. Cydnabuwyd bod angen i'r cymwysterau gael eu moderneiddio a chroesawyd y ffocws cynyddol ar weithrediad ac annibyniaeth dysgu. Cydnabu llawer o randdeiliaid y cysondeb â'r math o gwestiynau a ofynnir gan PISA ac roedd rhai yn cefnogi hyn ond roedd eraill o'r farn ei fod yn cyfyngu ar arloesedd mewn dysgu.

4.4 Roedd gan ychydig o athrawon bryderon ynglŷn â chynnwys mawr rhai cymwysterau, ond derbyniwyd y bydd hyder wrth addysgu yn ôl y fanyleb newydd yn gwella dros amser. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon mwy sylfaenol ynglŷn â manyleb cymwysterau TGAU mewn Gwyddoniaeth a'r graddau roeddent yn gymwys i ddulliau cyfoes ym maes gwyddoniaeth.

4.5 Roedd llawer o randdeiliaid yn cefnogi'r symud tuag at asesiadau terfynol er mwyn sicrhau mwy o drylwyredd, ond roedd siom am yr arddull asesu a gorddibyniaeth ar arholiadau papur. Gofynnodd ychydig o randdeiliaid am fwy o arloesedd o ran asesu.

4.6 Roedd rhanddeiliaid yn gwerthfawrogi'r penderfyniad i gynyddu'r cyd-destun Cymreig mewn cymwysterau. Fodd bynnag, mynegwyd siom gyda'r oedi cyn darparu rhai adnoddau i ysgolion cyfrwng Cymraeg a phrinder adnoddau o hyd i wneud llawer am hyn. Roedd pryderon ynglŷn â'r gofynion ar ysgolion, yn enwedig ysgolion cyfrwng Cymraeg i addysgu'r TGAU Cymraeg Ail Iaith lawn newydd. Roedd pryderon hefyd na fydd llawer o ddisgyblion yn ennill cymhwyster ar y diwedd am na fyddant yn cael eu cofrestru ar gyfer yr arholiad.

4.7 Roedd lefelau isel o ymwybyddiaeth o lawer o'r newidiadau i gymwysterau y tu allan i ysgolion a chanfyddiad rhanddeiliaid oedd bod ymwybyddiaeth arbennig o isel ymhlith rhieni.

4.8 Mae cefnogaeth o hyd i'r penderfyniadau i gadw graddau ar ffurf llythrennau a chadw'r dull modiwlar. Mae darparwyr addysg uwch, yn enwedig, o'r farn bod cymwysterau UG yn arwydd dibynadwy o botensial disgybl wrth roi cynnig i astudio mewn addysg uwch.

4.9 Mae'r newidiadau mewn rhai cymwysterau Safon Uwch, yn enwedig mathemateg, yn tynnu sylw at anghenion hyfforddiant ymhlith rhai athrawon a chonsortia rhanbarthol; mae angen i ysgolion sicrhau y gallant ymateb i hyn.

4.10 Mae Bagloriaeth Cymru wedi cael ei gwella ac yn enwedig ar lefel Uwch, ystyriwyd bod y penderfyniad i raddio'r Dystysgrif Her Sgiliau yn ddatblygiad cadarnhaol iawn. Fodd bynnag, erys pryderon o hyd ynglŷn â lefel y fiwrocratiaeth sydd ei hangen er mwyn cwblhau'r cymhwyster a'r effaith ar lwyth gwaith disgyblion, yn enwedig ar lefel Safon Uwch. Nid yw cysyniad Llywodraeth Cymru o 'fabwysiadu cyffredinol' yn cael ei ddeall yn dda ac mae pryderon bod disgyblion yn cael eu rhoi o dan anfantais gan rai darparwyr addysg uwch nad ydynt yn rhoi cynnig ar sail Bagloriaeth Cymru.

4.11 Yn ogystal â'r pryderon am lwyth gwaith disgyblion roedd canfyddiad bod dewis wedi cael ei gyfyngu ac na all ysgolion ddewis y fanyleb na'r corff dyfarnu a oedd fwyaf addas i'w cohortau o ddisgyblion mwyach. Roedd pryderon penodol ynglŷn â dileu BTEC Gwyddoniaeth o fesurau perfformiad ysgolion a'r effaith y bydd hyn, yn anochel, yn ei chael ar barodrwydd ysgolion i gynnig y cymhwyster. Roedd pryderon y byddai hyn yn rhoi rhai disgyblion o dan anfantais.

4.12 Un pryder ehangach a fynegwyd gan sawl rhanddeiliad oedd effaith mesurau perfformiad ysgol ar ysgolion a disgyblion yn fwy cyffredinol. Cydnabuwyd bod y system wedi gwella ond gofynnodd rhai rhanddeiliaid am fwy o ffocws ar gynnydd yn hytrach na chyrhaeddiad uwchlaw gradd C.

Hyder yn y System Gymwysterau

4.13 Cydnabuwyd bod Cymwysterau Cymru yn sefydliad cadarn a oedd yn rhoi arweinyddiaeth ac eglurder ynglŷn â materion rheoleiddio a chymwysterau. Mae'n ymddangos ei fod wedi datblygu cydberthnasau da â'r sector ysgolion, cynrychiolwyr cyflogwyr a chyrff dyfarnu. Fe'i canmolwyd am ymrwymiad i ymgynghori, gwneud penderfyniadau a rheoleiddio mewn modd agored a thryloyw.

4.14 Roedd sawl rhanddeiliad yn pryderu bod y newid i un corff dyfarnu ar gyfer cymwysterau cyffredinol yn risg, gan arwain at ddiffyg cystadleuaeth a gwasanaeth o ansawdd is. Mynegwyd rhai pryderon ychwanegol ynglŷn â gallu'r corff dyfarnu i ymateb i ofynion system gymwysterau Cymru, gydag enghreifftiau o adnoddau hwyr a manylebau gwael. Roedd rhanddeiliaid am gael sicrwydd ynglŷn â natur y gydberthynas rhwng Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a CBAC, gyda chylch gorchwyl clir, trefniadau rheoli contractau a gweithdrefnau rheoli ansawdd.

4.15 Mynegwyd pryderon ynglŷn ag adnoddau Cymraeg ac roedd sawl rhanddeiliad yn y consortia rhanbarthol ac ymhlith ysgolion cyfrwng Cymraeg yn siomedig iawn; eu canfyddiad oedd bod adnoddau'n hwyr a bod diffyg cynnydd. Roedd penderfyniad Llywodraeth Cymru ynglŷn ag addysgu cynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith yn orfodol yn gosod baich mawr ar ysgolion ac athrawon.

4.16 Roedd y broses gontractio ar gyfer dyfarnu'r cymwysterau newydd ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn codi rhai pryderon ymhlith rhai darparwyr a chyrff dyfarnu. Fodd bynnag, roedd cefnogaeth i'r penderfyniad i adolygu cymwysterau galwedigaethol fesul sector a gwella eu hansawdd. Byddai sicrwydd na chaiff cymwysterau galwedigaethol eu cyfyngu, gan arwain at un neu ddau gorff dyfarnu'n cael eu cymeradwyo i gynnig y cymwysterau yng Nghymru, yn cael ei groesawu gan gyrff dyfarnu a rhanddeiliaid eraill.

4.17 Mynegwyd rhywfaint o rwystredigaeth bod penderfyniadau amserlennu yn cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru heb roi sylw priodol i ymarferoldeb y terfynau amser. Roedd hyn yn achosi heriau sylweddol o ran adnoddau i'r corff dyfarnu, ysgolion a chonsortia rhanbarthol. Fodd bynnag, rhoddwyd rhai enghreifftiau lle mae hyn wedi achosi pwysau ac mae ansawdd darpariaeth o ran adnoddau cymwysterau a pharodrwydd athrawon wedi cael eu peryglu. Codwyd rhai pryderon ynglŷn ag effaith bosibl hyn ar ddisgyblion.

4.18 Roedd llawer o randdeiliaid yn deall yr heriau a wynebai Cymwysterau Cymru, yn enwedig o ran cyflawni ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i newid cymwysterau a phenderfyniadau polisi ynglŷn â newidiadau i'r cwricwlwm a pherfformiad ysgolion. Mynegwyd y farn bod angen i Gymru adweithio i'r newidiadau sy'n digwydd yn Lloegr ac ymateb yn briodol er mwyn sicrhau cyfwerthedd. Fodd bynnag, codwyd rhai pryderon nad oedd penderfyniadau bob amser yn cael eu gwneud er mwyn sicrhau na châi ansawdd addysgu na dysgu ei beryglu.

4.19 Yn gysylltiedig â hyn, roedd pryderon nad oedd negeseuon gan Lywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a CBAC bob amser yn gyson a bod angen cytuno ar rolau ymhlith y sefydliadau hynny a'u cyfleu, yn enwedig i'r consortia rhanbarthol. Cafwyd galwadau hefyd i Cymwysterau Cymru grynhoi gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru am bolisïau a chyfathrebu'n fwy uniongyrchol â chonsortia rhanbarthol.

4.20 Roedd ychydig o randdeiliaid yn edrych ymlaen at y newidiadau arfaethedig i'r cwricwlwm ac roeddent wedi'u cyffroi gan y cyfleoedd, ond roeddent yn pryderu hefyd ynghylch pa mor dda y bydd Cymru yn ymdopi â'r cyfnod pontio.

Sylwadau i gloi

4.21 Mae'r cyfweliadau a gynhaliwyd ar y cam hwn o'r maes gwaith wedi canolbwyntio gryn dipyn ar y newidiadau i gymwysterau a threfniadau asesu, yn ogystal â'r newidiadau polisi cysylltiedig. I lawer o randdeiliaid, newid, a'r broses o newid gan y tri sefydliad allweddol sy'n ymwneud â chymwysterau cyffredinol, oedd y mater pennaf dan sylw. Fodd bynnag, roedd lefelau uchel o gefnogaeth y gellir ei hadnabod yn hawdd i Cymwysterau Cymru ac i ymrwymiad y sefydliad i wella cymwysterau a'r system gymwysterau. Yn ystod y cyfweliadau ar gyfer yr ymchwil hon, gwelwyd yr un lefel o ymrwymiad i bob golwg, yn enwedig ymhlith ysgolion,

consortia rhanbarthol a chyrff dyfarnu. Mae hyn, ynddo'i hun, yn arwydd o hyder yn y system bresennol a'r cyfeiriad cyffredinol.